


# Adroddiad Comisiynwyr Plant Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Archwiliad o Chweched a Seithfed Adroddiad Cyfnodol Cyfunedig Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

**Rhagfyr 2020**

Children's Commissioner
Children & Young People's Commissioner Scotland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
NICCY
Promoting the Rights of Children & Young People

CYFLWYNIAD ..... 1
MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL ..... 2
1. Ymgorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig a methiant i gadarnhau’r trydydd Protocol Dewisol ..... 2
2. Hawliau a buddiannau plant heb gael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ..... 4
3. Dyraniad annigonol o ran adnoddau a diffyg tryloywder wrth gyllidebu ..... 5
4. Casglu, dadgyfuno a dadansoddi data annigonol ..... 6
5. Annibyniaeth Comisiynwyr Plant ..... 8
EGWYDDORION CYFFREDINOL ..... 8
6. Mae amddiffyniad annigonol yn golygu bod plant yn parhau i brofi camwahaniaethu ..... 8
7. Cyfranogiad annigonol plant a phobl ifanc pan wneir penderfyniadau ..... 10
HAWLIAU A RHYDDID SIFIL ..... 12
8. Parchu hawliau preifatrwydd plant a’u hamddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol ..... 12
TRAIS YN ERBYN PLANT ..... 13
9. Gorddefnydd o ataliaeth ac ynysu ym mhob lleoliad ..... 13
10. Angen amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad ar draws y Deyrnas Unedig ..... 14
11. Cefnogaeth plentyn-ganolog ar gyfer plant mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt ..... 15
12. Amddiffyniad annigonol i blant a phobl ifanc sy’n wynebu perygl trais difrifol, gorfodaeth ac ecsbloetio ..... 16
AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN ..... 19
13. Diffyg ymyrraeth gynnar, gofal plant, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd effeithiol ..... 19
14. Plant mewn gofal ..... 21
ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES ..... 23
15. Adnoddau annigonol i gefnogi plant anabl ..... 23
16. Methiant i wireddu’r safon iechyd uchaf sy’n gyraeddadwy ..... 25
17. Plant yn methu cael mynediad at driniaeth iechyd meddwl briodol ..... 27
18. Gweithredu annigonol i fynd i’r afael ag ansicrwydd bwyd plant ..... 28
19. Iechyd a chyfiawnder amgylcheddol ..... 29
20. Tlodi plant a diwygio lles ..... 31
21. Tai digonol ..... 33
ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL ..... 35
22. Mynediad anghyfartal i addysg ..... 35
23. Atal dros dro, gwahardd, a thynnu oddi ar y gofrestr ..... 38
24. Addysg am hawliau dynol a CCUHP ..... 38
25. Mynediad cyfyngedig at hamdden a chwarae mewn ardaloedd difreintiedig ..... 39
MESURAU AMDDIFFYN ARBENNIG ..... 40

26. Mesurau annigonol i amddiffyn a chefnogi plant mudol, ffoaduriaid, a rhai sy'n ceisio lloches ..... 40
27. Gorddefnyddio amddifadu o ryddid ..... 42
28. Dylid codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 14 o leiaf ..... 45
29. Cyfiawnder Ieuenctid ..... 45
ERAILL ..... 47
30. Effaith Brexit ..... 47
Diweddglo ..... 48
ATODIAD – Crynhoad o'r Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol ..... 49

# CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn gan Gomisiynwyr Plant Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn hysbysu datblygiad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o'r Rhestr Materion cyn Adrodd sy'n gysylltiedig â'r Chweched a'r Seithfed Adroddiad Cyfnodol Cyfunedig o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae'r adroddiad yn nodi tueddiadau a materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, y mae rhai ohonynt yn tynnu ar sylwadau terfynol blaenorol, tra bod eraill yn adlewyrchu tueddiadau sy'n destun pryder yn sgîl ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (Brexit) a phandemig Covid-19.

Mae'r Comisiynwyr yn Sefydliadau Hawliau Plant Annibynnol, y mae eu cylchoedd gorchwyl yn cwmpasu Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, sef Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (CCE), Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon (NICCY), Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (CYPCS), a Chomisiynydd Plant Cymru (CPC). Mae'r swyddogaethau statudol yn amrywio, ond mae'r cyfan yn troi o amgylch hybu a diogelu hawliau plant, yn arbennig o dan CCUHP, ac yn cael eu llywio gan farn a phrofiadau plant.

Oddi mewn i'r Deyrnas Unedig, mae rhai o swyddogaethau'r llywodraeth ganolog yn cael eu datganoli i weithrediaeth a deddfwrfa annibynnol gweinyddiaethau Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Mae cwmpas y datganoli'n amrywio, fel y crynhoir isod:

| **Yr Alban** | **Cymru** | **Gogledd Iwerddon** |
|---|---|---|
| Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau | Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau | Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | Iechyd a Gwas. Cymdeithasol |
| Amaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd | Amaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd | Amaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd |
| Yr Amgylchedd a Chynllunio | Yr Amgylchedd a Chynllunio | Yr Amgylchedd a Chynllunio |
| Datblygu Economaidd | Datblygu Economaidd | Datblygu Economaidd |
| Llywodraeth Leol | Llywodraeth Leol | Llywodraeth Leol |
| Trafnidiaeth | Trafnidiaeth | Trafnidiaeth |
| Twristiaeth, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth | Twristiaeth, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth | Twristiaeth, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth |
| | Yr Iaith Gymraeg | |
| Cyfiawnder a Phlismona | Cyfiawnder a Phlismona | Cyfiawnder a Phlismona |
| Ynni | Ynni | Ynni |
| Lles a Nawdd Cymdeithasol* | Lles a Nawdd Cymdeithasol | Lles a Nawdd Cymdeithasol |
| Darlledu | Darlledu | Darlledu |
| Amddiffyn a Diogelwch Gwladol | Amddiffyn a Diogelwch Gwladol | Amddiffyn a Diogelwch Gwladol |
| Materion Tramor | Materion Tramor | Materion Tramor |
| Polisi Ariannol a Macroeconomaidd* | Polisi Ariannol a Macroeconomaidd | Polisi Ariannol a Macroeconomaidd |
| Cenedlaetholdeb, Mewnfudo a Lloches | Cenedlaetholdeb, Mewnfudo a Lloches | Cenedlaetholdeb, Mewnfudo a Lloches |

*Ac eithrio elfennau a ddatganolwyd o dan Ddeddfau'r Alban 2012 a 2016   Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Sifil

**Key:**

Materion a ddatganolwyd

Materion a gadwyd yn San Steffan

Er bod mesurau i roi sylw i rai materion, gan gynnwys mewnfudo, yn gyffredin i'r Deyrnas Unedig gyfan, mae eraill wedi eu datganoli. O ganlyniad, rydym ni'n cynnwys gwybodaeth ac argymhellion penodol i'r gwledydd unigol, ond gan gydnabod mai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am weithredu CCUHP. Rydym ni'n annog y Pwyllgor i glywed gan y llywodraethau datganoledig yn ystod yr archwiliad o'r Wladwriaeth.

Cafodd llywodraeth Gogledd Iwerddon ei hatal dros dro rhwng Ionawr 2017 a Ionawr 2020. Achosodd y diffyg Gweithrediaeth oedi o ran diwygio deddfwriaeth a pholisi mewn meysydd hanfodol, gan gynnwys sawl un oedd yn effeithio ar blant. Sicrhaodd y cytundeb *New Decade, New Approach* fod y sefydliadau datganoledig yn cael eu hadfer, ac mae'n cynnwys mentrau polisi a deddfwriaeth pwysig sy'n ymwneud â phlant.[1]

Mae Brexit yn cyflwyno heriau sylweddol i hawliau plant ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon. Gan mai dyma'r unig un o wledydd y Deyrnas Unedig sy'n rhannu ffin â'r Undeb Ewropeaidd ar y tir, a bod hanes o wrthdaro yng nghyswllt y ffin honno, mae'n hanfodol lleiafu effaith Brexit ar holl bobl Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae pryderon sylweddol ynghylch goblygiadau Brexit ar gyfer Cytundeb Gwener y Groglith,[2] heddwch a sefydlogrwydd, a "ffin galed" bosibl rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, a fyddai'n effeithio ar fynediad at wasanaethau sy'n cael eu darparu ar lefel ynys gyfan, gan gynnwys rhyddid i symud nwyddau a rhyddid pobl i symud.

Yn 2019, roedd tua 12 miliwn o blant yn Lloegr, 450,000 yng Ngogledd Iwerddon, 1 filiwn yn yr Alban, a 600,000 yng Nghymru.[3]

Er gwaethaf datblygiadau calonogol o ran polisi a deddfwriaeth sydd â ffocws ar blant ers yr adolygiad diwethaf, nid yw manteision hynny wedi cael eu teimlo gan bawb ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r gwaith o weithredu CCUHP yn dal yn araf ac yn ddarniog, gydag anghydraddoldebau dwfn a chyson yn parhau, ac wedi cynyddu mewn rhai meysydd, gan gynnwys tlodi plant a iechyd meddwl.

## MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL

### 1. Ymgorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig a methiant i gadarnhau'r trydydd Protocol Dewisol

***Erthyglau 3, 4, 6, 12, OP3***

Cadarnhaodd **y Deyrnas Unedig** CCUHP yn 1991. Er gwaethaf argymhellion Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (y Pwyllgor), nid yw CCUHP wedi cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth

[1] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf
[2] Llofnodwyd Cytundeb Gwener y Groglith (The Good Friday Agreement), rhan o broses heddwch Gogledd Iwerddon, ar 10 Ebrill 1998, gan ddod â gwrthdaro i ben yng Ngogledd Iwerddon, a sefydlu ei system ddatganoledig o lywodraethu. Lluniwyd sefydliadau hefyd rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon a rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r Deyrnas Unedig.
[3] Office for National Statistics (ONS), 2020, *Population estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: Mid-2019: April 2020 local authority district codes edition of this dataset* [gwelwyd ar 4 Rhagfyr 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

ddomestig ac mae'n parhau'n annhraddodadwy yn llysoedd y Deyrnas Unedig. Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor,[4] nid yw'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ynghylch Gweithdrefn Gyfathrebu.

Ym mis Medi 2020, cyflwynodd **llywodraeth yr Alban** *United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill*[5] er mwyn ymgorffori CCUHP yn uniongyrchol i gyfraith yr Alban. Mae disgwyl i hyn ddod i rym yn gynnar yn 2021. Rydym ni'n croesawu'r dull gweithredu mwyafol a fabwysiadwyd, ond nid oes modd ymgorffori hawliau a neilltuwyd ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig. Mae llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ymgorffori cytuniadau hawliau dynol eraill i gyfraith ddomestig, ac mae wedi sefydlu Tasglu Cenedlaethol i Arwain ym maes Hawliau Dynol er mwyn creu fframwaith hawliau dynol statudol ehangach.[6]

Yng **Nghymru**, mae gan weinidogion ddyletswydd sylw dyledus i CCUHP o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[7] ond nid oes dyletswydd sylw dyledus ar gyrff cyhoeddus. Nid yw sylw dyledus yn cyfystyr ag ymgorffori gan nad yw'n rhoi i'r Confensiwn statws uwchlaw polisi.[8]

Yn **Lloegr** a **Gogledd Iwerddon**, nid yw'n gyfreithiol ofynnol i weinidogion y llywodraeth roi sylw dyledus i CCUHP, ac ni wnaed symudiad amlwg i gyflwyno CCUHP mewn cyfraith ddomestig. Sefydlodd y cytundeb *New Decade, New Approach* **Bwyllgor Cynulliad Gogedd Iwerddon** i edrych ar greu Bil Hawliau.[9] Mae'n rhaid ymgorffori CCUHP yn llawn yn y Bil hwn.

Dylid darparu hyfforddiant digonol ac adnoddau gweithredu i gyd-fynd â Bil Ymgorffori.

## Cwestiynau i'r Parti Gwladol

- **Pa gamau a gymerwyd i ymgorffori CCUHP, gan fabwysiadu dull gweithredu mwyafol o ran cymhwysiad a thraddodadwyedd, yn neddfwriaeth ddomestig Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru?**
- **Beth yw statws Bil Hawliau Gogledd Iwerddon, ac a fydd yn ymgorffori CCUHP yn llawn?**
- **Beth yw statws Bil Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (Ymgorffori)(Yr Alban) a'r fframwaith hawliau dynol ehangach yn yr Alban, a pha wahaniaeth maen nhw**

---

[4] CRC/C/GBR/CO/5, 88.
[5] *United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://beta.parliament.scot/bills/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-incorporation-scotland-bill.
[6] Scottish Government, 2020, *National Taskforce for Human Rights Leadership* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/groups/national-taskforce-for-human-rights-leadership/
[7] *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
[8] HOFFMAN, S and O'NEILL, S., 2018, *The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales*, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) [gwelwyd ar 04.12.20.] Ar gael o: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/the_impact_of_legal_integration_of_the_un_convention_on_the_rights_of_the_child_in_wales_eng.pdf
[9] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach*, t. 28.

**wedi'i wneud i weithredu hawliau?**

- **Pryd bydd y Deyrnas Unedig yn cadarnhau'r Trydydd Protocol Dewisol ar Weithdrefn Gyfathrebu?**

- **Sut bydd llywodraethau'n sicrhau bod prosesau cadarn ar gyfer gwreiddio CCUHP mewn deddfwriaeth, polisïau ac arferion newydd a diwygiedig?**

## 2. Hawliau a buddiannau plant heb gael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau

***Erthyglau 2, 3, 12, 24, 28, 29***

Nid yw llywodraeth y **Deyrnas Unedig** yn rhoi blaenoriaeth i hawliau na lleisiau plant mewn prosesau deddfwriaethol na pholisi. Mae diffyg Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), a/neu safon isel iddynt, i'w weld ym **mhob awdurdodaeth**. Mae'r enghreifftiau o gynnwys plant a'r hyfforddiant ar hawliau plant yn gyfyngedig. Mae CRIAs yn aml yn cael eu llunio'n ôl-weithredol, sy'n golygu na ellir rhoi sylw i unrhyw effaith negyddol ymlaen llaw. Mae safon rhai CRIAs yn destun pryder, gan eu bod yn aml heb ddadansoddi'r opsiynau sydd ar gael, heb gyfiawnhau'r opsiynau a ddewiswyd, heb gynnwys mesurau lliniaru, ac mae eu heffaith ar benderfyniadau gweinidogol yn aneglur.

Mae rhaid i **Lywodraeth Cymru** gwblhau CRIAs ar newidiadau i ddeddfwriaeth a phenderfyniadau polisi o dan Gynllun Hawliau Plant a gyhoeddwyd,[10] gan ddatgan sut byddant yn cyflawni eu dyletswyddau. Nid yw hyn wedi cael ei ddiweddaru ers 2014.[11] Yn ddiweddar maent wedi ymrwymo i gyhoeddi pob CRIA ar-lein. Mae'r broses ar gyfer monitro canlyniadau yn aneglur.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae gofyn bod pob asiantaeth ac adran statudol yn gweithio gyda'i gilydd a chyda sefydliadau eraill i wella llesiant plant yng nghyswllt wyth mesur, yn unol â CCUHP.[12] Mae strategaeth ddrafft 2019 yn cael ei hystyried gan y Weithrediaeth, ac mae cynllun Cyflawni ar y gweill ond heb ei gyhoeddi. Ni chaiff CRIAs eu llunio wrth ddatblygu polisi na deddfwriaeth y llywodraeth, ac eithrio'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.[13]

Yn **Lloegr**, er bod cadw plant yn yr ysgol bellach yn flaenoriaeth, roedd yr ymateb cychwynnol i'r pandemig yn diystyru anghenion plant, ac ailagorwyd lletygarwch a siopau gyntaf. Rydym yn croesawu creu templed CRIA.[14]

Nid oes sgrinio clir ar gyfer CRIAs ar draws y llywodraeth na phroses systematig o Werthusiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIE) yn **yr Alban**. Fodd bynnag, mae darpariaeth yn y Bil Ymgorffori CCUHP, fydd yn galw am ddefnydd strategol o CRIAs.[15]

---

[10] *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*.
[11] Llywodraeth Cymru, 2014, *Cynllun Hawliau Plant 2014* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://senedd.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children's%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-English.pdf
[12] *Children's Services Co-operation Act (Northern Ireland) 2015* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/nia/2015/10/contents
[13] Department of Education, 2018, *Strategy for Looked After Children: Improving Children's Lives* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.education-ni.gov.uk/consultations/strategy-looked-after-children-improving-childrens-lives.
[14] UK Parliament, 2018, *Written Ministerial Statement for Universal Children's Day* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2018-11-20/HCWS1093

Dylai CRIAs gael eu llunio fel mater o drefn a'u cyhoeddi ar bob penderfyniad polisi a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant. Dylid ymgynghori â phlant ar hyd y broses. Dylai llywodraethau gyfeirio at ddatganiad Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop (ENOC) ar CRIAs a fframwaith cyffredin ar gyfer eu defnyddio.[16]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gyflwyno rhwymedigaeth statudol ar draws llywodraethau er mwyn cynnal CRIA yn systematig wrth ddatblygu cyfreithiau a pholisïau sy'n effeithio ar blant a CRIE i werthuso'r effeithiau? Esboniwch, os gwelwch yn dda, sut bydd barn plant yn cael ei chynnwys yn y prosesau hyn.**

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn darparu adnoddau effeithiol ac yn cyflawni hyfforddiant hawliau plant, gan hyrwyddo defnydd o offer fel CRIAs a CRIEs ar draws llywodraethau ar bob lefel, fel bod gweision sifil yn gwybod ac yn deall sut i gymhwyso dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant fel mater o drefn yn y broses o lunio polisi?**

- **A oes Strategaeth a Chynllun Cyflawni Plant a Phobl Ifanc a gymeradwywyd gan y Weithrediaeth i gyflawni ym maes hawliau plant, gyda ffocws ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, yng Ngogledd Iwerddon?**

### 3. Dyraniad annigonol o ran adnoddau a diffyg tryloywder wrth gyllidebu
***Erthyglau 2, 3, 4, 31, 28, 29, 24, 23***

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, mae diffyg tryloywder ac eglurder o ran prosesau cyllidebol, dyraniadau a gwariant sy'n ymwneud â phlant. Mae absenoldeb dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth ymdrin â chyllidebu cenedlaethol a lleol yn golygu bod anhawster i ganfod faint o arian sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer plant, yn arbennig pan fydd cyllidebau lluosog dan sylw, a hefyd i asesu effeithiolrwydd dyraniad adnoddau, a gwneud cyrff yn atebol; neu i werthuso'r effeithiau ar wasanaethau plant.

Cyn y pandemig, roedd gwasanaethau statudol plant yn **Lloegr** yn wynebu diffyg o £3 biliwn[17].[18] Byddai diwallu anghenion pob plentyn mewn sefyllfa fregus yn costio rhyw £10 biliwn.[19] Mae sicrhau

---

[15] Scottish Government, 2020, *Child rights and wellbeing impact assessments: list* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/publications/child-rights-and-wellbeing-impact-assessments-list/
[16] European Network of Ombudspersons for Children (ENOC), 2020, *Position Statement on "Child Rights Impact Assessment" (CRIA)* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: http://enoc.eu/wp-content/uploads/2020/11/ENOC-2020-Position-Statement-on-CRIA-FV-1.pdf*; Common Framework of Reference on Child Rights Impact Assessments, A Guide on How to Carry Out CRIA* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: http://enoc.eu/wp-content/uploads/2020/12/ENOC-Common-Framework-of-Reference-FV.pdf
[17] Tua 3,940,830,000 USD (Tachwedd 2020).
[18] Local Government Association, 2018, *Local Government Association Briefing Chancellor's Budget* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Budget%202018%20-%20LGA%20briefing.pdf
[19] Tua 13,134,900,000 USD (Tachwedd 2020) CCE, 2019, *A Manifesto for Children Budget* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/a-manifesto-for-children/

buddsoddiad wedi bod yn heriol oherwydd cyni, absenoldeb data ynghylch bod yn agored i niwed yn ystod plentyndod, canlyniadau plant, a gwariant ar wasanaethau plant.

Yn **yr Alban,** mae toriadau i'r gyllideb sydd wedi arwain at gau gwasanaethau awdurdodau lleol neu leihau eu hargaeledd – gan gynnwys llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden, wedi cael effaith negyddol ar hawliau plant. Mae contractio gwasanaethau cyhoeddus allan, gan gynnwys mewn ysgolion, yn arwain at atebolrwydd a thryloywder cyfyngedig.[20]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae diffyg tryloywder ynghylch dyrannu adnoddau i wasanaethau plant a thoriadau i'r gyllideb yn cael effaith gynyddol ar argaeledd gwasanaethau plant, yn arbennig addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.[21]

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi torri llinellau cyllidebau lle byddai CRIA manwl wedi nodi'r effaith ar hawliau plentyn, er enghraifft, grantiau gwisg ysgol a chyllid ar gyfer dysgwyr o dan anfantais. Er i'r rhain gael eu gwrthdroi yn ddiweddarach, mae'n destun pryder bod y sefyllfaoedd hyn yn codi.[22]

Mae'n rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig gyllidebu ar sail hawliau plant, gan gynnwys CRIAs, a sicrhau dyrannu adnoddau tryloyw ar gyfer gwasanaethau plant. Dylai'r dogfennau cyllideb fod yn glir ac ar gael i'r cyhoedd. Dylid gwerthuso gwasanaethau i bennu eu heffeithiolrwydd, fel bod modd i lywodraethau ddangos eu bod yn dyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau plant hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn mesur yn dryloyw ac yn rheolaidd yr adnoddau a ddyrannir mewn cyllidebau ar gyfer hawliau plant ac yn asesu effaith gwariant ar gyfer plant yn unol â CCUHP?**

- **Faint sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer plant yn ystod pob un o'r pedair blynedd diwethaf?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau i sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu hariannu'n ddigonol, yn arbennig yng nghyswllt plant a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd bregus.**

### 4. Casglu, dadgyfuno a dadansoddi data annigonol
***Erthyglau 2, 3, 4, 23, 24, 28, 29***

---

[20] Joseph Rowntree Foundation, 2015, *The Cost of the Cuts: The Impact on Local Government and Poorer Communities* [gwelwyd ar 07.12.2020]. Ar gael o: https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/Summary-Final.pdf

[21] NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/StillWaiting

[22] CPC, 2019, *Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant yng Nghymru* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://business.senedd.wales/documents/s94615/CRW%2011%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales.pdf

Mae diffyg casglu data cydlynus, cyson, tryloyw a systematig, wedi'i ddadgyfuno, ynghylch plant ar draws **pob awdurdodaeth**, sy'n golygu ei fod yn anodd monitro a mesur anghenion plant ac asesu a yw eu hawliau'n cael eu cyflawni.

Mae dyletswyddau adroddiadau data sector cyhoeddus **yr Alban** wedi cael eu datblygu mewn modd *ad hoc* dros flynyddoedd lawer, ac maent yn anghyson. Nid oes data dibynadwy ar blant anabl. Mae data ar blant sydd ag Anghenion Cefnogi Ychwanegol (ASNs) yn cael ei chyhoeddi ond nid yw'n cael ei ddadgyfuno'n llawn.

Mae Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2019 **Gogledd Iwerddon** yn cynnwys prosesau rhannu gwybodaeth, monitro a gwerthuso.[23] Arweiniodd oedi wrth lunio'r Strategaeth derfynol a dangosyddion cysylltiedig at absenoldeb data cadarn ynghylch hawliau CCUHP a bylchau mewn gwasanaethau plant: yn arbennig gwasanaethau iechyd meddwl[24] a darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn ysgolion prif ffrwd.[25] Mae hynny'n golygu bod canfod bylchau yn y ddarpariaeth yn anodd, a hefyd ganfod effaith gwasanaethau presennol ar ganlyniadau.

Yn **Lloegr,** nid oes data swyddogol cynhwysfawr am sefyllfa fregus yn ystod plentyndod,[26] gwasanaethau i gefnogi plant na chanlyniadau, sy'n cyfyngu ar allu'r Wladwriaeth i adnabod a chefnogi plant. Nid oes dull systematig o adnabod plant sy'n colli tir yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol.[27]

Yng **Nghymru**, nid oes data cydlynus nac wedi'i ddadgyfuno ynghylch gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl plant y tu hwnt i wasanaethau arbenigol. Mae diffyg data Cymru'n unig wedi'i ddadgyfuno ynghylch marwoldeb plant yn ôl ethnigrwydd; plant anabl;[28] bwlio yn yr ysgol; amlygrwydd salwch meddwl ymhlith plant; a llesiant plant mewn sefydliadau gwarchodol; ymhlith pethau eraill.[29]

Ym **mhob awdurdodaeth**, mae'r pandemig wedi datgelu bylchau sylweddol sy'n destun pryder yn y data, sy'n golygu bod asesu effaith y pandemig ac ymatebion y Wladwriaeth ar blant yn heriol.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

[23] Department of Education Northern Ireland, 2019, *Children and Young People's Strategy 2019-29* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.education-ni.gov.uk/publications/children-and-young-peoples-strategy-2019-2029
[24] NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting*.
[25] NICCY, 2020, *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/senreviewreports
[26] Mynedai CCE o'r risgiau mae plant yn eu hwynebu yw'r unig ddull cynhwysfawr o fesur bod yn agored i niwed yn ystod plentyndod.
[27] Gweler CCE, *CHLDRN: Childhood Local Data on Risks and Needs* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/chldrn/
[28] Ac eithrio addysg a chyrhaeddiad.
[29] BARRANCE, R., 2019, *The Human Rights of Children in Wales: An Evidence Review*, Wales Institute for Social and Economic Research, Data and Methods [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/EvidenceReview_ENG_060619.pdf

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn datblygu system gynhwysfawr o gasglu a gwerthuso data hawliau plant, gan gynnwys dangosyddion hawliau plant mesuradwy, fydd yn cynhyrchu data o ansawdd uchel wedi'i ddadgyfuno?**

- **Sut bydd y data hwn yn cael ei rannu ar draws yr holl adrannau ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod modd tracio anghenion, nodweddion bregus a chanlyniadau plant yn briodol, er mwyn gallu cyflawni rhwymedigaethau hawliau plant?**

### 5. Annibyniaeth Comisiynwyr Plant

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae dau adolygiad allanol o ddeddfwriaeth y Comisiynydd wedi nodi cyfyngiadau critigol sy'n rhwystro gallu'r Comisiynydd i ymarfer pwerau cyfreithiol yn llawn. Nid yw'r Weithrediaeth eto wedi rhoi unrhyw rai o'r argymhellion hyn ar waith.

Mae **CCE** yn atebol i'r Senedd, yn pennu cynllun busnes personol, ac yn dyrannu ei adnoddau ei hun. Fodd bynnag, mae **CCE** a **CPC** yn cael eu hariannu gan y llywodraeth yn hytrach na'r Senedd, er mai rhan o'u rôl yw sicrhau bod eu llywodraeth eu hunain yn atebol. Mae **Senedd Cymru** wedi argymell mai'r Senedd ddylai ariannu'r Comisiynydd er mwyn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris.[30]

Y Senedd sy'n ariannu **CYPCS**, ac i'r corff hwnnw y mae'n adrodd.

## Cwestiynau i'r Parti Gwladol

- **Pa ystyriaeth a roddwyd i'r argymhellion sy'n deillio o adolygu deddfwriaeth NICCY?**

- **Pa gamau a gymerwyd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am weithrediad swyddfeydd CPC a CCE i'w Seneddau?**

- **Pa gamau a gymerir i wella annibyniaeth y Comisiynwyr, yn arbennig yng nghyswllt pennu cyllideb?**

## EGWYDDORION CYFFREDINOL

### 6. Mae amddiffyniad annigonol yn golygu bod plant yn parhau i brofi camwahaniaethu

***Erthyglau 2, 3, 15, 19, 31***

Mae plant ar draws y **Deyrnas Unedig** yn parhau i wynebu mathau lluosog o gamwahaniaethu. Mae naratifau cyhoeddus sy'n destun pryder ynghylch "pobl ifanc" a chyfyngiadau Covid-19, sy'n adleisio disgwrs cynharach a mesurau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.[31]

---

[30] Senedd Cymru, 2020, *Hawliau Plant yng Nghymru: Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13405-r/cr-ld13405-r-e.pdf
[31] CRC/C/GBR/CO/5, 37.

Yn 2012, cyhoeddodd Gweithrediaeth **Gogledd Iwerddon** y byddai'r Bil Camwahaniaethu ar sail Oed (Nwyddau a Chyfleusterau a Gwasanaethau) yn berthnasol i bersonau dros 16 oed yn unig. Er gwaethaf cwyn lwyddiannus NICCY i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon,[32] ni chyhoeddwyd unrhyw newidiadau. Mae'r cytundeb *New Decade, New Approach* yn ymrwymo i gyflwyno'r Bil, ond ni chafwyd cyhoeddiad ynghylch a yw bellach yn cwmpasu plant o dan 16 oed.[33]

Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor,[34] mae dyfeisiau mosgito[35] yn dal i gael eu defnyddio i atal plant rhag ymgynnull yn gyhoeddus. Nid yw llywodraeth **yr Alban** wedi defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi, nac wedi ceisio pwerau ychwanegol, i gyflwyno gwaharddiad arnynt, ac nid yw **llywodraeth y Deyrnas Unedig** wedi gwneud hynny chwaith.

Mewn rhai meysydd o **gyfraith yr Alban**, y diffiniad o 'blentyn' yw rhywun o dan 16, sy'n golygu nad yw rhai mesurau diogelu i amddiffyn plant a iechyd meddwl yn berthnasol i bobl ifanc 16 ac 17 oed mewn rhai cyd-destunau. O dan Ddeddf Coronafeirws 2020 y Deyrnas Unedig gyfan,[36] mae plant 16 ac 17 oed o'r Alban mewn perygl o gael eu cyhuddo, eu harestio, eu cadw yn y ddalfa a'u cael yn euog o dramgwyddau troseddol, a gallent fod yn atebol i gael eu carcharu am hyd at flwyddyn.

Yng **Nghymru,** mae ysgolion yn aml heb weithredu'n ddigon ymatebol pan fydd myfyrwyr yn rhoi gwybod am hiliaeth.[37] Mae gwreiddio addysg wrth-hiliol yn y cwricwlwm newydd, monitro trwy arolygiadau ysgol, ac ymdrin â'r diffyg addysgwyr Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) yn gamau angenrheidiol i ddileu camwahaniaethu hiliol.[38] Mae'n rhaid gweithredu canllawiau gwrthfwlio statudol 2019[39]. Mae plant anabl yn wynebu rhwystrau uniongyrchol a strwythurol i gydraddoldeb, gan gynnwys diffyg seilwaith hygyrch.[40] O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,[41] rhaid i awdurdodau lleol feddu ar strategaeth hygyrchedd a'i gweithredu.

Yn **Lloegr,** mae plant o gefndir BAME yn wynebu anghydraddoldebau niferus.[42] Mae'r rhai sy'n rhan o aelwydydd Asiaidd, Du, ac 'Eraill' yn dioddef effaith anghymesur yn sgîl tlodi parhaus a gorlenwi.[43]

---

[32] NICCY, 2017, *GFS (Goods Facilities and Services Anti-discrimination Legislation)* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/children-and-young-people/issues-that-affect-you/gfs-goods-facilities-and-services-anti-discrimination-legislation/

[33] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach*.

[34] CYPCS, 2020, *Mosquito devices* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://cypcs.org.uk/positions/mosquito-devices/#what-should-the-scottish-government-do-to-outlaw-mosquito-device; CRC/C/GBR/CO/5, 37 (a).

[35] 'Dyfeisiau atal ymgynnull' electronig sy'n creu sŵn suo traw uchel ar amledd na all neb ond plant ei glywed.

[36] *Coronavirus Act 2020* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/7/enacted

[37] Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru, 2018, *Profiadau o Hiliaeth a 'Hil' mewn Ysgolion yng Nghymru* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: ://eyst.org.uk/assets/experiences-of-racism-and-race-in-schools-in-wales.pdf

[38] Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, 2020, *Hiliaeth yng Nghymru? Archwilio Rhagfarn yn System Addysg Cymru* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed659aa1288d943ddd2a784/1591106007132/Racism+in+Wales+-+Exploring+racism+the+Education+system+May+2020++%28F%29.pdf

[39] Llywodraeth Cymru, 2019, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/school-bullying

[40] CPC, 2018, *Bywydau Llawn – Mynediad Cyfartal: Adroddiad Dilynol ar Hygyrchedd Ysgolion yng Nghymru i Gadeiriau Olwyn* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Full-Lives-Equal-Access.pdf

[41] *Deddf Cydraddoldeb 2010* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

[42] Cabinet Office, 2018, *Race Disparity Audit Summary Findings from the Ethnicity Facts and*

Mae disgyblion Du o'r Caribî dair gwaith mor debygol o gael eu gwahardd yn barhaol â disgyblion Gwyn Prydeinig, a dwywaith mor debygol o gael gwaharddiad cyfnod penodol â disgyblion Gwyn Prydeinig.[44] Disgyblion Sipsiwn, Roma, neu'n Deithwyr Gwyddelig sydd â'r lefelau cyrhaeddiad a chynnydd isaf, a nhw yw'r lleiaf tebygol o aros ym myd addysg ar ôl cyrraedd 16 oed. Ymhlith plant LHDTQ+ mae stigma, rhagfarn a chamwahaniaethu yn gysylltiedig â lefel isel o hunanbarch, unigrwydd a meddwl am hunanladdiad.[45]

## Cwestiynau i'r Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i ymdrin â chamwahaniaethu ar sail oed, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, anabledd, a seiliau eraill mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys addysg.**

- **Sut bydd llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i ddarparu addysg wrth-hiliol a llety rhesymol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion fel bod pob plentyn yn gallu mynychu ar sail gyfartal?**

- **Ydy Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi symud ymlaen gyda Bil Camwahaniaethu ar Sail Oedran (Nwyddau, Cyfleusterau a Gwasanaethau) sy'n darparu amddiffyniad i bob plentyn o dan 18 oed?**

- **Fydd y Deyrnas Unedig neu'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwahardd dyfeisiau mosgito?**

### 7. Cyfranogiad annigonol plant a phobl ifanc pan wneir penderfyniadau
***Erthyglau 2, 12, 13, 15, 19***

Mae plant yn cael eu hamddifadu o'u hawl i gael eu clywed a'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau **ar draws pob awdurdodaeth** gan nad yw hynny wedi'i roi ar waith yn gynhwysfawr yn y gyfraith ac o ran ymarfer. Rhaid i ymgyngoriadau a dogfennaeth fod yn hygyrch ac yn hwylus i blant, a rhaid i awdurdodau ymgysylltu'n weithredol ac yn ystyrlon â phlant. Yn aml ni chlywir barn plant mewn cwynion a phrosesau apelio, e.e. apeliadau arholiadau a thribiwnlysoedd addysg. Rhaid i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i gyfranogiad plant trwy sefydlu strwythurau, mecanweithiau a chanllawiau priodol, a darparu hyfforddiant i sicrhau cyfranogiad ystyrlon wrth ddatblygu polisïau, strategaethau, deddfwriaeth, cyflwyno gwasanaeth, a monitro.

---

*Figures website* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/686071/Revised_RDA_report_March_2018.pdf

[43] Ibid.

[44] Ibid.

[45] WILLIAMS A.J., ARCELUS J., TOWNSEND E., and MICHAIL M., 2019, *Examining Risk Factors for Self-Harm and Suicide in LGBTQ+ Young People: a Systematic Review Protocol*, *BMJ Open*, Nov 1;9(11) [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://bmjopen.bmj.com/content/9/11/e031541

### *Cyfranogiad dinesig*

Yn **yr Alban** a **Chymru,** 16 yw oed pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ddatganoledig a llywodraeth leol.[46] Oed pleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig yw 18 o hyd. Dylid ei ostwng i 16.

Sefydlodd **yr Alban** ei Senedd Ieuenctid yn 1999.[47] Sefydlodd **Cymru** ei Senedd Ieuenctid[48] yn 2018. Cyhoeddodd **Gogledd Iwerddon** yn 2020 y byddai Cynulliad Ieuenctid yn cael ei sefydlu.[49]

### *Addysg a chyd-destunau eraill*

Yn **Lloegr,** mae plant yn ymgysylltu trwy'r Senedd Ieuenctid, mecanweithiau ysgol a Fforwm Ieuenctid y GIG. Fodd bynnag, mae diffyg ymgysylltiad ystyrlon â phlant, a chynrychiolaeth iddynt wrth wneud penderfyniadau, yn arbennig yn achos plant sydd â phrofiad o ofal. Rhaid i blant fod yn rhan hanfodol o'r Adolygiad Gofal sydd ar droed, a gallu cael mynediad at eiriolaeth o safon uchel.

Yn **yr Alban**, mae cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a wneir mewn gwranawiadau cyfreithiol a gweinyddol yn galw am gefnogaeth briodol gan eiriolwyr annibynnol, a lle bo hynny'n briodol, gymorth cyfreithiol i sicrhau bod modd clywed eu barn. Er bod Deddf Plant (yr Alban) 2020 yn sicrhau bod barn plant mewn achosion cyfraith teulu yn cyd-fynd â CCUHP, mae angen rhoi hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol a darparu cefnogaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant er mwyn gweithredu hyn.[50]

Yng **Ngogledd Iwerddon,** bu cynnydd o ran datblygu strwythurau i brif-ffrydio lleisiau plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys menter Cyfranogiad mewn Penderfyniadau yr Adran Addysg, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes polisi cenedlaethol penodol sy'n gofyn, yn gorfodi, neu'n gosod rhwymedigaeth o ran cynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw.

Yng **Nghymru**, canfu arolwg o 6,392 o blant yn 2018 fod cyfranogiad cyfyngedig ym mhenderfyniadau'r ysgol, gan gynnwys cynghorau ysgol,[51] er gwaethaf y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi cyfranogiad plant yn eu hardal leol, o fewn yr ysgol a'r tu hwnt i hynny.[52] Mae llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, wedi sefydlu mecanweithiau cyfranogiad ieuenctid.

---

[46] *Scottish Elections (Reduction of Voting Age) Act 2015*. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/asp/2015/7/contents/enacted; *Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020*. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/1/contents/enacted [gwelwyd y ddwy ar 06.12.20].
[47] Scottish Youth Parliament, 2020, *Our Story* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://syp.org.uk/about-syp/our-story/. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth yn cynnal cyfarfod â chynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid yn flynyddol.
[48] Senedd Ieuenctid Cymru, 2020 [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.youthparliament.wales/. Mae'n cynnal trafodaethau sesiwn lawn a sesiynau pwyllgor; mae'n pennu rhaglen waith; yn cynhyrchu adroddiadau; ac yn craffu ar Weinidogion y Llywodraeth.
[49] Northern Ireland Assembly, 2020, *Welcome to the Youth Assembly* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: http://www.niassembly.gov.uk/visit-and-learning/youth-assembly-2020/
[50] CYPCS, 2019, *Evidence Submission: Justice Committee Call for Views on the Children (Scotland) Bill* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://cypcs.org.uk/get-help/i-work-to-change-things/our-policy-work/evidence-submission-justice-committee-call-for-views-on-the-children-scotland-bill/
[51] CPC, 2018, *Arolwg Addysg Y Ffordd Gywir 2018* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Childrens-Rights-Survey.pdf
[52] Llywodraeth Cymru, 2018, *Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc.* Ar gael o: https://gov.wales/children-and-young-peoples-national-participation-standards; *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010* Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents [gwelwyd y ddau ar 06.12.20].

## Cwestiynau i'r Parti Gwladol

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf?**

- **Pa gamau bydd y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu cymryd i roi plant a'u buddiannau yn y canol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf o beidio â chael eu clywed, a diogelu eu hawl i gyfranogi yn y gyfraith trwy ymgorffori CCUHP?**

- **Sut bydd y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwella'u hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy sefydlu strwythurau, mecanweithiau a chanllawiau priodol, cynhyrchu fersiynau hygyrch, hwylus i blant o ddogfennau ymgynghori, mecanweithiau cwynion hwylus i blant, a hyfforddi personél?**

## HAWLIAU A RHYDDID SIFIL

### 8. Parchu hawliau preifatrwydd plant a'u hamddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol

***Erthyglau 2, 3, 12, 13, 16, 19, 24, 28, 29***

Mae mynediad i'r amgylchedd digidol yn hanfodol, er ei fod hefyd yn achosi risgiau i blant ar draws **y Deyrnas Unedig**, gan gynnwys cam-drin ac ecsbloetio rhywiol, deunydd amhriodol, gwario mewn apiau, gamblo, diffyg preifatrwydd data, bwlio, a phwysau gan gyfoedion.

Daeth y Côd Dylunio Oed-Briodol, sydd wedi'i wreiddio yn CCUHP, i rym ym mis Medi 2020.[53] Rhaid i'w weithredu fod yn flaenoriaeth.

Roedd papur gwyn llywodraeth y **Deyrnas Unedig**[54] yn cynnwys manylion cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth Niwed Ar-lein, ond mae wedi bod yn destun oedi droeon. Mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth hon roi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau ar-lein i gadw defnyddwyr yn ddiogel, gan eu gorfodi i ddileu deunydd niweidiol yn gyflym, a chosbi'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Mae'r meysydd allweddol ar gyfer ymateb ar draws **pob awdurdodaeth** yn cynnwys trwy'r system addysg, wrth ddysgu am breifatrwydd ar-lein ac amddiffyn plant. Dylai llywodraethau weithredu argymhellion o ddatganiad ENOC ar "Hawliau Plant yn yr Amgylchedd Digidol,"[55] cynnwys plant fel

---

[53] Information Commissioner's Office, 2020, *Age Appropriate Design: a Code of Practice for Online Services* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://ico.org.uk/media/for-organisations/guide-to-data-protection/key-data-protection-themes/age-appropriate-design-a-code-of-practice-for-online-services-2-1.pdf

[54] Department for Digital, Culture, Media and Sport and Home Office, 2019, *Online Harms White Paper* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/consultations/online-harms-white-paper

[55] ENOC, 2019, *Position Statement on "Children's Rights in the Digital Environment* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: http://enoc.eu/wp-content/uploads/2019/10/ENOC-2019-Statement-on-Childrens-Rights-in-the-Digital-Environment.pdf

cyfranogwyr gweithredol, sicrhau mynediad cyfartal i'r amgylchedd digidol, ac amddiffyn plant rhag niwed trwy hybu hawliau plant ar-lein yn unol â Chanllawiau Cyngor Ewrop 2018.[56]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflwyno deddfwriaeth Niwed Ar-lein i amddiffyn plant ar-lein heb oedi pellach?**
- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gweithrediad llawn y Côd Oed-Briodol?**
- **Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol, gan gynnwys eu hawl i breifatrwydd, buddsoddiad mewn mesurau addysgiadol, casglu a diogelu data, mesurau amddiffyn plant, rheoleiddio gweithgareddau ar-lein, a datblygu strategaeth diogelwch ar-lein sy'n seiliedig ar hawliau plant?**
- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cynnwys plant fel cyfranogwyr mewn gwaith ar amddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol ac yn defnyddio dulliau gweithredu a arweinir gan gyfoedion?**

## TRAIS YN ERBYN PLANT

### 9. Gorddefnydd o ataliaeth ac ynysu ym mhob lleoliad

***Erthyglau 2, 3, 12, 19, 28, 29, 24, 37***

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, mae ynysu, neilltuo ac ataliaeth[57] yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau addysg, gofal, iechyd meddwl, a chadw'n gaeth, weithiau yn fesur disgyblu ar gyfer digwyddiadau lefel isel, ac weithiau gan achosi anafiadau. Ni ddylid defnyddio ataliaeth ond pan fydd popeth arall wedi methu, a dylai unrhyw ddefnydd fod yn gymesur a chael ei gofnodi a'i adolygu'n briodol. Mae adroddiadau anghywir a/neu anghyson ynghylch dulliau ac arferion atal yn golygu bod canfod hyd a lled defnydd o'r fath yn anodd.

Yn **Lloegr,** caniateir ataliaeth mewn lleoliadau addysg a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs) i gynnal trefn a disgyblaeth dda, yn hytrach nag i gadw plant yn ddiogel. Mae'n rhaid rhoi sylw i hyn ar frys.

Yng **Nghymru,** mae'r data a gesglir gan awdurdodau lleol ar dechnegau ynysu/neilltuo yn amrywio. Mae'r llywodraeth wedi ymgynghori ar fframwaith drafft ar gyfer lleihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys canllawiau ar gasglu data.[58]

---

[56] Council of Europe, 2018, *Guidelines to Respect, Protect and Fulfil the Rights of the Child in the Digital Environment*, Recommendation CM/Rec(2018)7 of the Committee of Ministers [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://edoc.coe.int/en/children-and-the-internet/7921-guidelines-to-respect-protect-and-fulfil-the-rights-of-the-child-in-the-digital-environment-recommendation-cmrec20187-of-the-committee-of-ministers.html
[57] Gan gynnwys ataliaeth sy'n achosi poen mewn rhai cyd-destunau.
[58] Llywodraeth Cymru, 2019, *Dogfen Ymgynghori: Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-10/consultation-document-reducing-restrictive-practices-framework.pdf

Yng **Ngogledd Iwerddon,** mae diffyg cofnodi gorfodol ar gyfer ymyriadau cyfyngol a neilltuo yn cuddio graddfa'r defnydd o hyn. Rhaid ymdrin â hynny ar frys trwy ddiweddaru canllawiau a hyfforddiant. Mae disgyblion ag AAA yn arbennig o agored i niwed yng nghyswllt arferion o'r fath, sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau disgyblu lefel isel a/neu achosion o dorri rheolau'r ysgol, fel peidio â chadw at y wisg ysgol.[59] Mae gofyn bod dulliau mwy cadarnhaol a chymesur o reoli ymddygiad, gan gynnwys ymyriadau therapiwtig, mewn lleoliadau prif ffrwd.[60]

Yn **yr Alban**, mae ataliaeth weithiau'n cael ei defnyddio'n ymateb amhriodol i ymddygiad plant sydd mewn trallod.[61] Mae polisïau ac arferion awdurdodau lleol yn anghyson, ac yn methu â chydnabod hawliau plant. Mae ataliaeth a neilltuo yn cael eu defnyddio'n anghymesur yn erbyn plant anabl.[62] Mae llawer o blant wedi gorfod brwydro i sicrhau cyfiawnder gan fod eu hadroddiadau a'u cyfweliadau heb gael eu defnyddio gan yr heddlu nac awdurdodau amddiffyn plant oherwydd eu hoed a/neu eu hanableddau.[63]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa gamau bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn eu cymryd i ymdrin ag ataliaeth, gan gynnwys ataliaeth sy'n achosi poen lle mae hynny'n dal yn berthnasol, ac arferion ynysu/neilltuo ym mhob lleoliad, gan sicrhau na ddefnyddir ataliaeth ond pan fydd popeth arall wedi methu?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i gyflwyno canllawiau cynhwysfawr ar gyfyngu defnydd o ynysu, eithrio, neilltuo ac arferion ataliol a chyfyngol oni bai bod plentyn yn wynebu risg niwed uniongyrchol. Mae'r wybodaeth hon yn galw am gofnodi, adrodd, monitro ac adolygu pob digwyddiad yn gyson ar lefel genedlaethol ar draws lleoliadau iechyd, cyfiawnder, gofal cymdeithasol, preswyl ac addysg, yn ogystal â hyfforddi'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant. Gofynnir i chi ddarparu'r holl ddata sydd ar gael ers 2016.**

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddileu defnydd o gaethiwo unigol am unrhyw gyfnod i blant?**

### 10. Angen amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad ar draws y Deyrnas Unedig

***Erthyglau 2, 3, 19, 36***

---

[59] Tystiolaeth o waith achosion Cyfreithiol ac Ymchwiliadau NICCY.
[60] NICCY, 2020, *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*.
[61] Who Cares? Scotland, 2019, *Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Bill: Supplementary Evidence on Restraint Framework* [gwelwyd ar 11.12.20]. Ar gael o: https://www.whocaresscotland.org/wp-content/uploads/2019/02/WCS-Supplementary-Evidence-on-Restraint.pdf
[62] CYPCS, 2018, *No Safe Place: Restraint and Seclusion in Scotland's Schools* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.cypcs.org.uk/ufiles/No-Safe-Place.pdf, t.18
[63] Ibid., t.12.

Ers 2016,[64] mae diwygio cyfreithiol wedi cael ei sicrhau yn **yr Alban** trwy'r *Children (Equal Protection from Assault)(Scotland) Act 2019*[65] ac yng **Nghymru** trwy Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) 2020.[66] Mae rhaid i'r ddwy lywodraeth roi blaenoriaeth i weithredu cryf a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddulliau cadarnhaol o fagu plant.

Yn **Lloegr**[67] a **Gogledd Iwerddon**[68] mae amddiffyniad cosb resymol am ymosod ar blant yn dal i fodoli yn y gyfraith. Dylai'r llywodraethau ddileu'r amddiffyniad hwn.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith o ran gweithredu a chyfathrebu'r ddeddfwriaeth newydd yn yr Alban a Chymru?**

- **A fydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn ymrwymo i ddileu amddiffyniad "cosb resymol" mewn deddfwriaeth, a darparu gwybodaeth am ffyrdd cadarnhaol o fagu plant a chefnogaeth i weithredu hyn?**

### 11. Cefnogaeth plentyn-ganolog ar gyfer plant mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt
***Erthyglau 2, 3, 19, 34, 35, OP2***

Yn **yr Alban**, mae rhoi'r model Barnahus[69] ar waith yn parhau, ac mae peilot yn cael ei ddatblygu. Rhaid iddo fod ar gael i bob plentyn hyd at 18 oed mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt. Rhaid peidio â thrin pobl ifanc 16 ac 17 oed fel oedolion a'u gwneud yn anghymwys i dderbyn y gefnogaeth hon.

Yn **Lloegr**, nid yw'r rhan fwyaf o blant sy'n profi cam-drin rhywiol yn cael eu canfod na'u cefnogi. Yn achos y plant hynny y deuir o hyd iddynt, mae'r broses ymchwilio, gan gynnwys oedi sylweddol wrth ddod ag achosion i dreial, yn aml yn drawmatig. Sefydlwyd cyfleuster seiliedig ar Barnahus -- Y Goleudy -- yn Llundain gan gyrff gwirfoddol a sector cyhoeddus, yn fan diogel ar gyfer plant y mae cam-drin neu ecsbloetio rhywiol wedi effeithio arnynt.[70]

---

[64] CRC/C/GBR/CO/5, para. 41.
[65] *Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Act 2019* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/16/enacted. Daeth i rym ar 7 Tachwedd, 2020.
[66] Senedd Cymru (2020) *Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) 2020* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/3/contents/enacted. Daw i rym ym mis Mawrth 2022.
[67] Mae Adran 58 o *Ddeddf Plant 2004* yn cyfyngu ar gosb resymol fel nad yw'n amddiffyniad wrth achosi niwed difrifol i blant, ond darperir amddiffyniad "cosb resymol" i rieni, neiniau a theidiau, nanis, gwarchodwyr plant ac ati yn wyneb cyhuddiad o ymosodiad cyffredin/guro. [Gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/section/58
[68] Diwygiwyd y gyfraith ynghylch cosb gorfforol i gyfyngu ar amddiffyniad "cosb resymol" neu "gosbedigaeth resymol" yn *Law Reform (Miscellaneous Provisions) (Northern Ireland) Order 2006*. Fodd bynnag, mae'r amddiffyniad yn dal ar gael i rieni o dan rai amgylchiadau yng nghyswllt ymosodiad cyffredin [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/nisi/2006/1945/contents
[69] Mae'r model Barnahus yn cefnogi gweithredu'r Confensiwn er Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol, a gafodd ei gadarnhau gan y Deyrnas Unedig yn 2018.
[70] University College London Hospitals, 2020, *The Lighthouse* [viewed 6 December 2020]. Available from: https://www.uclh.nhs.uk/OurServices/ServiceA-Z/CYPS/lighthouse/Pages/Home.aspx.

Nid oes darpariaeth sy'n cyfateb i Barnahus yng **Ngogledd Iwerddon** na **Chymru**.

O dan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol 2019,[71] mae rhaid i fyrddau diogelu rhanbarthol yng **Nghymru** adolygu'r gefnogaeth therapiwtig sydd ar gael i blant er mwyn canfod a rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth. Dylai Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol presennol a rhai a gynlluniwyd ar gyfer plant ddilyn model Barnahus a chael eu hariannu'n ddigonol.

Mynegodd Adolygiad 2019 o'r gyfraith a gweithdrefnau mewn achosion o droseddau rhywiol difrifol yng Ngogledd Iwerddon bryder ynghylch y ffaith bod achosion troseddau rhywiol lle roedd plant yn ddioddefwyr yn cymryd 986 diwrnod, ar gyfartaledd, i gael eu cwblhau, gan gyfeirio at gymhwysiad anghyson mesurau arbennig.[72] Nid yw croesholi wedi'i recordio ymlaen llaw yn bodoli, nid yw personél cyfreithiol yn cael fawr ddim cyswllt â'r plant sy'n ddioddefwyr cyn mynd i'r llys, mae hyd a natur y croesholi yn aml heb adlewyrchu bod plant yn dystion agored i niwed, a gall y gweithdrefnau achosi trawma o'r newydd.[73] Mae'r Weithrediaeth wedi ymrwymo i roi sylw i ganfyddiadau'r Adolygiad, gan gynnwys argymhelliad i ystyried y model Barnahus.[74]

## Cwestiwn i'r Parti Gwladol

- **Pryd bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cyflwyno model Barnahus, neu fodel tebyg plentyn-ganolog, ar gyfer plant y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt, gan gynnwys adnoddau ariannol a dynol angenrheidiol?**

### 12. Amddiffyniad annigonol i blant a phobl ifanc sy'n wynebu perygl trais difrifol, gorfodaeth ac ecsbloetio

***Erthyglau 6, 19, 28, 29, 34, 35, 36, 38, 39, OP1, OP2***

#### *Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE)*

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr CSE yn amrywio ar draws **Cymru.** Mae angen system fwy cynhwysfawr i gasglu data, yn arbennig data awdurdodau lleol ynghylch ecsbloetio 'county lines'.[75]

Dylai **Gogledd Iwerddon** weithredu'r argymhellion o Ymchwiliad Annibynnol 2014 i CSE ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, plismona, cyfiawnder, ac addysg er mwyn amddiffyn a chefnogi

[71] Llywodraeth Cymru, 2019, *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol – Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/national-action-plan-preventing-and-responding-to-child-sexual-abuse.pdf
[72] Gillen Review, 2019, *Report into the Law and Procedures in Serious Sexual Offences in Northern Ireland* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/gillen-report-may-2019.pdf
[73] Ibid., 117; NICCY, 2018, *NICCY's Advice to Sir John Gillen's Review of Sexual Offences Cases* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/publications/2018/september/07/review-of-sexual-offences-cases/
[74] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach*, p. 7.
[75] The Children's Society, 2019, *Counting Lives: Responding to Children who are Criminally Exploited* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/2020-10/counting-lives-report.pdf

dioddefwyr yn fwy effeithiol.[76] Nid yw'r holl Gynlluniau Gweithredu ac Adroddiadau Cynnydd CSE a gyhoeddwyd wedi darparu fframwaith cadarn i weithredu canfyddiadau'r Ymchwiliad nac arddangos gwelliannau gwirioneddol.[77]

### *Trais yn erbyn Plant*

Cynyddodd nifer y troseddau rhywiol yn erbyn plant rhwng 2017/18 a 2018/19 yn **Lloegr** a **Chymru**.[78] Nid oes data wedi'i ddadgyfuno ar gyfer **Cymru**. Nid yw **llywodraeth yr Alban** yn nodi yn achos pob trosedd rywiol a gawsant eu cyflawni yn erbyn plentyn, er enghraifft, troseddau o dreisio a gofnodwyd.[79]

Gan nad oes dyletswydd ar ysgolion yng **Nghymru** i ddilyn Canllawiau Cenedlaethol y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored,[80] mae angen arweiniad i ysgolion ynghylch teithiau. Rhaid i bob ysgol a choleg fod o dan ddyletswydd i roi canllawiau o'r fath ar waith ac yn ymwybodol o hynny. Dylai'r canllawiau gael eu harchwilio'n fanwl gan Estyn[81] ym mhob ysgol. Nid oes rhaid i athrawon mewn ysgolion preifat gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ac nid oes rhaid i ysgolion preifat ddangos eu bod yn cydymffurfio â phrosesau diogelu cenedlaethol. Rhaid i'r llywodraeth sicrhau amddiffyniad cyfartal rhag ecsbloetio a chamdriniaeth i blant mewn ysgolion preifat.

Yn **Lloegr**, er gwaethaf mwy o arwyddion rhybudd ynghylch trais cysylltiedig â gangiau, gwaharddiadau, a throseddau cyllyll,[82] mae'r gwasanaethau plant wedi nodi 6,560 yn unig o'r 34,000 o blant sy'n wynebu'r lefel uchaf o risg.[83] Mae angen gweithredu a/neu gryfhau gwasanaethau i

---

[76] Kathleen Marshall, 2014, *Child Sexual Exploitation in Northern Ireland: Report of the Independent Inquiry* [gwelwyd ar 06.12.20]. Ar gael o: http://www.cjini.org/getattachment/f094f421-6ae0-4ebd-9cd7-aec04a2cbafa/Child-Sexual-Exploitationin-Northern-Ireland.aspx

[77] NICCY, Mae Adolygiadau 2016, 2017, a 2018 o Gynlluniau Gweithredu ac Adroddiadau Cynnydd CSE ar gael o: NICCY, 2020, *Child Sexual Exploitation* [gwelwyd ar 07.12.20] : https://www.niccy.org/about-us/our-current-work/high-level-corporate-objectives/children-s-right-to-health-protection-from-violence-or-abuse/child-sexual-exploitation-cse/

[78] ONS, 2020, *Child Sexual Abuse–Appendix tables* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/childsexualabuseappendixtables

[79] Scottish Government, 2019, *Recorded Crime in Scotland: 2018-2019* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/publications/recorded-crime-scotland-2018-19/pages/15/ Canfu cais Rhyddid Gwybodaeth gan yr NSPCC i Heddlu'r Alban fod 5,311 o droseddau rhywiol wedi'u cofnodi yn erbyn plant yn 2019/20, gan gynnwys achosion o dreisio, ymosodiadau rhywiol, a pharatoi amhriodol: https://tfn.scot/news/child-sexual-offences-rise-by-a-third-over-five-years.

[80] Outdoor Education Advisors Panel, 2020, *National Guidance Contents* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://oeapng.info/5471-national-guidance-contents/

[81] Yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant

[82] Cynyddodd yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant oedd yn ymwneud â gangiau 27% rhwng 2017/18 a 2018/19, cynyddodd y gwaharddiadau parhaol 70% yn 2018/19 o gymharu â 2012/13, a chododd nifer y plant a dderbyniwyd i'r ysbyty ar ôl dioddef ymosodiad â gwrthrych miniog 57% rhwng 2015/16 a 2018/19. Department for Education, 2020, *Permanent and Fixed-Period Exclusions in England: 2018 to 2019*. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/permanent-and-fixed-period-exclusions-in-england-2018-to-2019; 2019, *Characteristics of Children in Need: 2018 to 2019*. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/843046/Characteristics_of_children_in_need_2018_to_2019_main_text.pdf; NHS Digital, 2019, *Hospital Admissions for Assault by Sharp Objects*. Ar gael o: https://digital.nhs.uk/data-and-information/find-data-and-publications/supplementary-information/2019-supplementary-information-files/ae-attendances/hospital-admissions-for-assault-by-sharp-object. [Gwelwyd y cyfan ar 07.12.20].

[83] CCE, 2019, *Keeping Kids Safe: Improving Safeguarding Responses to Gang Violence and Criminal Exploitation* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/02/CCO-Gangs.pdf

amddiffyn plant rhag ecsbloetio a thrais, gan gynnwys trefniadau diogelu lleol manwl, gwell defnydd o ddata, a ffocws ar blant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio gan gangiau.

Mae plant yn cael eu cydnabod yn y Bil Cam-drin Domestig,[84] ond nid yw'n cydnabod cam-drin mewn perthnasoedd rhwng plant. Nid yw cam-drin mewn perthynas agos rhwng plant yn cael ei ddeall yn dda, ei nodi, nac yn derbyn sylw, ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y canllawiau Cydweithio i Ddiogelu Plant.[85] Mae'n rhaid ei nodi a'i gofnodi fel mater o drefn gan yr heddlu a'r gwasanaethau plant er mwyn teilwra ymatebion.

Mae **Cynulliad Gogledd Iwerddon** wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y Bil Cam-drin Domestig ac Achosion Teulu.[86] Mae'n rhaid newid hwn i ddarparu amddiffyniad effeithiol a llawn ar gyfer dioddefwyr sy'n blant ar draws cyfraith a gweithdrefnau sifil a throseddol, gan sicrhau bod plant sy'n ymddwyn mewn modd niweidiol a chamdriniol yn derbyn ymyriadau priodol ac effeithiol.[87]

### *Y Lluoedd Arfog a Grwpiau Arfog nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth*

Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor,[88] mae'r **Deyrnas Unedig** yn parhau i ymrestru plant yn y Lluoedd Arfog o 16 oed, ac maent yn recriwtio pobl ifanc 16 ac 17 oed yn rhagweithiol. Maent yn ymrestru dros 2,000 o blant bob blwyddyn, ac yn targedu ardaloedd difreintiedig i recriwtio pobl ifanc.[89]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae plant yn dal i ddioddef bygythiadau parafilwrol, achosion o saethu ac ymosodiadau, gan achosi anafedigion, anafiadau, a gwneud llawer yn ddigartref.[90] Mae pobl ifanc ar draws gwahanol gymunedau wedi sôn am 'weithredu gan luoedd nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth', ac amlygu recriwtio cynyddol i gyrff parafilwrol, yn aml trwy orfodaeth, bygythiadau a/neu ymosodiadau.[91] Ymhlith y mentrau mae Cynllun Gweithredu'r Weithrediaeth ar gyfer Taclo'r Agwedd

---

[84] UK Parliament, 2020, *Bill Documents — Domestic Abuse Bill 2019-21* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/domesticabuse/documents.html.
[85] UK Government, 2019, *Working Together to Safeguard Children: Statutory Guidance on Inter-Agency Working to Safeguard and Promote the Welfare of Children* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2.
[86] *Domestic Abuse and Family Proceedings Bill* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: http://www.niassembly.gov.uk/assembly-business/legislation/2017-2022-mandate/primary-legislation---bills-2017---2022-mandate/domestic-abuse-bill/bill---as-introduced/
[87] NICCY, 2020, *Domestic Abuse and Family Proceedings Bill* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/publications/2020/june/04/domestic-abuse-and-family-proceedings-bill/
[88] CRC/C/GBR/CO/5, 49, 85.
[89] Child Rights International Network, 2019, *Conscription by Poverty? Deprivation and Army Recruitment in the UK* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://static1.squarespace.com/static/5afadb22e17ba3eddf90c02f/t/5d5bbf83278b3100018306a4/1566293898095/UK_recruitment_report_final.pdf
[90] Police Service of Northern Ireland, 2020, *Police Recorded Security Situation: Statistics 1 April 2019 to 31 March 2020* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.psni.police.uk/globalassets/inside-the-psni/our-statistics/security-situation-statistics/2020/march/security-situation-statistics-to-march-2020.pdf; DEENEY D. and RUTHERFORD A., 2019. *Exclusive: 2,000 Households Forced Out of Their Homes-Paramilitaries Blamed for 73% of Cases*. *The Belfast Telegraph*. Belfast, 3 January [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.belfasttelegraph.co.uk/news/northern-ireland/exclusive-2000-households-forced-out-of-their-homes-paramilitaries-blamed-for-73-of-cases-37676384.html.
[91] Adroddwyd i Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon.

Barafilwrol, Troseddoldeb a Throseddau Trefnedig[92] a chanllawiau ynghylch iechyd plant yn amodol ar fygythiadau i fywyd.[93]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi roi gwybodaeth am y camau a gymerwyd i wella casglu data a chanfod plant sydd mewn perygl o gael eu gorfodi, eu hecsbloetio a dioddef trais, a chamau gweithredu effeithiol i wella'u sefyllfaoedd.**

- **Sut mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth mewn perthnasoedd agos?**

- **Pa gamau mae llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynghylch canllawiau statudol ar deithiau ysgol a sicrhau bod plant mewn ysgolion preifat yn cael yr un amddiffyniad â phlant mewn ysgolion nad ydynt yn breifat?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i sicrhau bod plant yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi dioddef effaith cam-drin domestig yn cael eu hamddiffyn yn llawn o dan gyfraith a gweithdrefnau sifil a throseddol, bod plant sy'n arddangos ymddygiad niweidiol a chamdriniol yn derbyn ymyriadau priodol ac effeithiol, a bod argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Ecsbloetio Plant yn Rhywiol wedi cael eu gweithredu'n effeithiol.**

- **Fydd y Parti Gwladol yn codi oed recriwtio i'r Lluoedd Arfog i 18?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch data monitro a gwerthuso llawn ar gyfer rhaglenni a chamau gweithredu i atal plant rhag ymwneud â gweithgareddau parafilwrol a'u hamddiffyn rhag trais parafilwrol.**

## AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

### 13. Diffyg ymyrraeth gynnar, gofal plant, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd effeithiol

***Erthyglau 2, 3, 12, 23, 24, 25, 28, 29***

Ar draws y **Deyrnas Unedig,** mae angen mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar i deuluoedd mewn sefyllfaoedd bregus. Dylai llywodraethau fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i ataliaeth cyn argyfwng, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar.

Yn **Lloegr,** gostyngodd cyfanswm y gwariant ar wasanaethau plant ryw 11% mewn termau real rhwng 2009/10 a 2017/18, gyda gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid a chanolfannau plant, yn

---

[92] Department of Justice, 2016, *Tackling Paramilitary Activity, Criminality, and Organised Crime Action Plan* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.justice-ni.gov.uk/publications/tackling-paramilitary-activity-criminality-and-organised-crime-action-plan.

[93] NICCY, 2020, *Statement on Children's Rights in NI 2* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/media/3691/niccy-socrni-2-main-report-web-nov-20.pdf, pp. 85-90.

profi gostyngiad o 60% erbyn 2019/20.[94] Gostyngodd y gwariant ar wasanaethau plant ataliol o 41% i 25% rhwng 2010/11 a 2017/18.[95] O ganlyniad, mae gallu awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth ar ffurf ymyrraeth gynnar wedi'i gyfyngu.

Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar eraill, gan gynnwys cyllid ar gyfer ymwelwyr iechyd, hefyd o dan straen.[96] Mae'r model 'Troubled Families', sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i roi sylw i benderfynyddion ehangach camweithrediad teuluoedd, yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y bydd angen i blentyn fynd i ofal y wladwriaeth, a gellid ehangu hyn i gynnwys mwy o ffocws ar ganlyniadau plant.[97] I ddiwallu anghenion wedi'r pandemig, mae'n rhaid i'r cyllid ar gyfer y model hwn gael ei dreblu.[98]

Yng **Nghymru,** mae'r cynnig gofal plant o hyd at 30 awr yr wythnos ar gyfer rhieni plant 3-4 oed sy'n gweithio i'w groesawu ond dylai fod ar gael i bob plentyn, beth bynnag yw statws gwaith eu rhieni. Bydd y dull gweithredu newydd arfaethedig ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn ystyried ehangu cymhwysedd i rai rhieni sydd heb waith. Roedd Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws[99] yn darparu gofal plant am ddim i rai 'plant agored i niwed', heb ystyried statws gwaith y rhieni. Dylai hyn barhau.

Mae'r gyfradd fesul 100,000 o blant sy'n derbyn gofal (yng ngofal y wladwriaeth) yng **Nghymru** (102) yn sylweddol uwch nag yn Lloegr (64) ac yn cynyddu.[100] Mae'n rhaid sefydlu rhaglenni ymyrraeth gynnar amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'n rhaid i'r Weithrediaeth sicrhau buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i gefnogi plant a'u teuluoedd yn briodol. Er gwaethaf ymgyngoriadau ar strategaeth gofal plant ddrafft, ni chyhoeddwyd hyn eto.

Yn **yr Alban**, mae'r gostyngiad yn y cyllid i awdurdodau lleol wedi effeithio ar y ddarpariaeth o ran cymorth i deuluoedd. Mae'r hyn sydd ar gael yn anghyson ar draws y wlad, gan fod gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a chyrff trydydd sector. Gall statws arian grant tymor byr, ansicr llawer o wasanaethau, sy'n derbyn cyllid o lawer o ffynonellau, greu ansicrwydd ynghylch dilyniant y gwasanaeth a chael effaith negyddol ar y staff.[101]

---

[94] Institute of Fiscal Studies, 2018, *Public Spending on Children in England: 2000 to 2020* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/06/Public-Spending-on-Children-in-England-CCO-JUNE-2018.pdf
[95] National Audit Office (NAO), 2019, *Pressures on Children's Social Care* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Pressures-on-Childrens-Social-Care.pdf
[96] CCE, 2020, *Best Beginnings in the Early Years* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/07/cco-best-beginnings-in-the-early-years.pdf
[97] Ministry of Housing, Communities and Local Government, 2020, *Troubled Families Programme* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://troubledfamilies.blog.gov.uk/
[98] Ibid.
[99]Llywodraeth Cymru, 2020, *Datganiad Ysgrifenedig: Y Cynnig Gofal Plant a Chynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/written-statement-childcare-offer-and-coronavirus-childcare-assistance-scheme
[100] HODGES, H. and BRISTOW, D., 2019, *Analysis of the Factors Contributing to the High Rates of Care in Wales* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.wcpp.org.uk/publication/analysis-of-the-factors-contributing-to-the-high-rates-of-care-in-wales/
[101] Galloway, S., 2020, *Challenges from the Frontline – Revisited: Supporting Families with Multiple Adversities in Scotland during a Time of Austerity*, Barnardo's Scotland and NSPCC Scotland [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau a gynlluniwyd a'r adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau a chynhaliaeth ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, a phwyslais arnynt, gan ehangu nifer y plant a gefnogir, gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau plant?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau i sicrhau bod pob teulu yn gallu cael mynediad i ofal plant ar sail angen yn hytrach na statws cyflogaeth.**

- **Pryd bydd llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ariannu a darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd addas a digonol i roi sylw i'r cyfraddau annerbyniol o uchel o blant a phobl ifanc sy'n mynd i ofal yr awdurdod lleol?**

### 14. Plant mewn gofal
***Erthyglau 2, 3, 6, 12, 23, 24, 28, 29, 37***

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, mae dyluniad gwael systemau yn effeithio ar blant sy'n derbyn gofal, gan greu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd, safonau gofal annigonol, ac ynysu.

Mae diffyg gwasanaethau priodol, gan gynnwys darpariaeth breswyl arbenigol, yn neu gerllaw y man lle maen nhw'n byw, yn golygu bod plant o **Loegr** a **Chymru** yn cael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio neu eu hanfon ymhell o'u cartref.[102]

Yng **Nghymru**, mae plant ag anghenion gofal cymdeithasol a iechyd meddwl cymhleth yn aml yn methu derbyn cefnogaeth neu gael mynediad at ddarpariaeth breswyl arbenigol, ac maent yn cael eu gosod mewn darpariaeth anaddas yng Nghymru, neu weithiau yn Lloegr neu'r Alban. Dylai llywodraeth Cymru greu cyfleusterau gofal lleol, addas, ar gyfer y plant hyn. Ni ddylai plant gael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, sydd heb gael eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Gofal.

Ni ddylai cwmnïau wneud elw o ofal plant. Mae cost gyfartalog lleoliad Asiantaeth Annibynnol (£43,368)[103] bron dwywaith cost lleoliad awdurdod lleol (£23,327)[104] ac mae'r ffaith bod marchnad ar gyfer gofal y wladwriaeth yn cynyddu'r perygl y bydd plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref.[105]

---

o: https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/2020-10/Barnardo%27s%20Scotland%20and%20NSPCC%20Scotland%20-%20Challenges%20from%20the%20Frontline%20-%20Revisited.pdf, pp. 11, 38-39.

[102] Mae un o bob wyth plentyn sydd mewn gofal yn treulio amser mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, ac mae 2,000 o blant yn byw mwy na 100 milltir o'u cartref. CCE, 2019, *Stability Index* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/stability-index-2019/

[103] Tua 56,740 USD (Tachwedd 2020).

[104] Tua 30,519 USD (Tachwedd 2020).

[105] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018, *Plant a Phobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://business.senedd.wales/documents/s81096/Committee%20Report%20-%20Care%20experienced%20children%20and%20young%20people%20-%20November%202018.pdf

Dylai'r llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth fel bod cefnogaeth yn ofynnol wrth i ymadawyr gofal bontio o ofal yr awdurdod lleol.

Yn **yr Alban**, gwnaeth yr Adolygiad Gofal Annibynnol argymhellion sylweddol i wella'r system ofal, gan gynnwys trawsffurfio gwasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd, gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar a systemau sy'n rhoi'r defnyddiwr yn y canol.[106] Er mai nod y system Gwrandawiadau Plant[107] yw gweithredu mewn modd plentyn-ganolog, mae pobl ifanc yn dal i adrodd nad ydynt bob amser yn cael eu cefnogi'n ddigonol i gyfranogi mewn gwrandawiadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant iau a phlant hŷn sy'n gwrthdaro â'r gyfraith.[108]

Yn **Lloegr,** mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn profi ansefydlogrwydd sylweddol oherwydd newidiadau mynych i'w gweithwyr cymdeithasol, eu hysgolion a'u gofalwyr.[109] Mae diffyg lleoliadau diogel yn golygu bod plant yn gallu cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn cyd-destunau amhriodol. Mae rhai lleoliadau â lefelau o ofal sydd o dan y safon, yn arbennig os nad ydynt wedi'u rheoleiddio.[110] Mae'n rhaid estyn y gwaharddiad arfaethedig ar blant o dan 16 oed yn byw mewn cyd-destunau lle na chaniateir ond eu 'cefnogi' i bob plentyn o dan 18.[111] Mae angen cynnal yr adolygiad gofal arfaethedig ar frys, ac mae'n rhaid iddo ystyried yr holl system o gymorth i deuluoedd a'r camau angenrheidiol i gynyddu digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'n rhaid cyflwyno'r Bil Mabwysiadu a Phlant, y bu oedi mawr yn ei gylch, a'r Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng **Ngogledd Iwerddon**, a hynny ar frys. Mae rhaid i'r adolygiad o gyfleusterau rhanbarthol arbenigol ar draws gofal diogel, iechyd meddwl a chyfiawnder ieuenctid roi sylw i oedi cyn rhyddhau a lleiafu derbyniadau eildro. Nid yw mesurau i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at gyfleusterau a chefnogaeth priodol a lleoliadau wedi'u teilwra bob amser yn cydymffurfio â'u hawliau a'u lles pennaf. Dylai symudiad plant rhwng cyfleusterau rhanbarthol gynnwys mynediad at leoliadau arbenigol yn achos plant sydd ag anghenion cymhleth ac anableddau a rhoi sylw i ganlyniadau gwael.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mewn darpariaeth breswyl arbenigol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, yn agos at eu cartref, bod yr Arolygiaeth Gofal yn archwilio pob lleoliad yn briodol, gan gynnwys 'lleoliadau heb eu rheoleiddio', a bod barn plant yn cael ei chlywed.**

---

[106] Independent Care Review, 2020, *The Promise* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/02/The-Promise.pdf
[107] Mae'r System Gwrandawiadau Plant seiliedig ar les yn gwneud penderfyniadau ar gyfer plant sydd angen mesurau gorfodol o ran goruchwyliaeth, gofal, ac amddiffyniad, gan gynnwys rhai sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni trosedd.
[108] Ibid., tt.39-44.
[109] CCE, 2019, *Stability Index*.
[110] CCE, 2020, *Unregulated: Children in Care Living in Semi-Independent Accommodation* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/09/cco-unregulated-children-in-care-living-in-semi-independent-accommodation.pdf
[111] Department for Education, 2020, *Strict New Measures to Protect Vulnerable Children in Care* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/news/strict-new-measures-to-protect-vulnerable-children-in-care

- **Sut bydd y Parti Gwladol yn gwella llesiant plant sy'n derbyn gofal?**

- **Beth mae llywodraeth Cymru yn gwneud i sicrhau bod darpariaeth arbenigol yn cael ei sefydlu ar gyfer y plant hynny ag anghenion cymhleth sydd angen darpariaeth breswyl a fydd yn cefnogi eu hanghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i roi argymhellion Adolygiad Gofal Annibynnol yr Alban ar waith.**

- **Gofynnir i chi gadarnhau'r llinell amser ar gyfer cyflwyno'r Bil Mabwysiadu a Phlant a'r Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngogledd Iwerddon a mesurau i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i gyfleusterau arbenigol priodol ar gyfer eu hanghenion.**

- **Pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau y bydd yr Adolygiad Gofal sydd ar ddod yn Lloegr yn arwain at welliannau sylweddol yn y system gofal cymdeithasol i blant, gan gynnwys ymgysylltu gweithredol â phlant ar hyd y broses?**

## ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

### 15. Adnoddau annigonol i gefnogi plant anabl

***Erthyglau 2, 3, 4, 12, 23, 24, 28, 29***

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, mae adnoddau annigonol yn cael effaith anghymesur ar blant anabl, yn arbennig oherwydd mesurau cyni a Covid-19. At ei gilydd, nid yw plant anabl bob amser yn cael y gefnogaeth ychwanegol sy'n ofynnol o dan y gyfraith na mynediad cyfartal at wasanaethau.

Yng **Nghymru**, mae byrddau iechyd yn rheolaidd yn methu cyflawni'r targed o 26 wythnos ar gyfer asesiad cychwynnol gwasanaethau niwroddatblygiadol. Mae rhai byrddau'n sôn am gyfnodau aros cyfartalog o 24 mis.[112] Dylai'r llywodraeth fabwysiadu dull gweithredu sy'n cydnabod niwroamrywiaeth ac yn darparu ymateb amlasiantaeth i bob plentyn sy'n profi trallod emosiynol, p'un a oes ganddynt ddiagnosis ffurfiol neu beidio -- dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir'.[113] Mae plant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn profi gwasanaethau digyswllt, ac yn aml ni fyddant yn ymwneud â'u pontio i wasanaethau oedolion.[114] Mae'n rhaid i'r llywodraeth sicrhau proses "gydlynus", plentyn-ganolog.

Yn **Lloegr**, mae gwasanaethau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND) o dan bwysau cynyddol. Yn 2017/18, gorwariodd 81.3% o awdurdodau lleol ar eu cyllideb anghenion lefel uchel.

[112] HOLTOM, D., IQBAL, H., and LLOYD-JONES, S., 2019, *Scoping Study for the Alignment and Development of Autism and Neurodevelopmental Services*, GSR report number 43/2019. [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/autism-and-neurodevelopmental-services

[113] Mae CPC wedi nodi dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir', a ddylai gynnwys modelau cymorth ataliol di-fwlch i ddarparu cefnogaeth yn fuan gan ystod o wasanaethau (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i iechyd meddwl) er mwyn ymdrin ag angen yn hytrach na chanolbwyntio ar leihau rhestrau aros. CPC, 2020, *'Dim Drws Anghywir': Dod â Gwasanaethau Ynghyd i Ddiwallu Anghenion Plant* [gwelwyd ar 07.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/publications/no-wrong-door-bringing-services-together-to-meet-childrens-needs/

[114] CPC, 2018, *Paid Dal yn ôl* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Dont-Hold-Back.pdf

Canfu mwy na hanner y 100 archwiliad cyntaf o wasanaethau SEND lleol wendidau difrifol.[115][116] Croesawir cyhoeddiad y llywodraeth yn 2019 ynghylch adolygiad SEND, ond bu oedi yn ei gylch oherwydd y pandemig, a dargyfeiriwyd adnoddau'r llywodraeth.

Yng **Ngogledd Iwerddon,** mae plant ag anableddau dysgu yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a chefnogaeth iechyd meddwl yn ddarniog, ac yn aml nid ydynt ar gael, yn hygyrch, neu o safon i ddiwallu eu hanghenion.[117]

Mae'r system AAA a'r ddarpariaeth anabledd mewn ysgolion prif ffrwd yn annigonol. Ymhlith y problemau mae cael mynediad i weithdrefnau ar gyfer canfod ac asesu anghenion, mynediad at gefnogaeth addysgol hanfodol a'i digonolrwydd, a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bu oedi sylweddol wrth weithredu deddfwriaeth newydd ar gyfer plant ag anabledd a'r rhai ag AAA.[118]

Yn **yr Alban**, mae cefnogaeth annigonol ar gyfer plant anabl, yn arbennig mewn addysg brif ffrwd.[119] Mae effaith anghymesur ar blant ag Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio, Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a chyflyrau eraill niwroamrywiol. Er bod niferoedd cynyddol o blant yn cael eu nodi fel rhai ag anghenion cefnogi ychwanegol (ASN), mae nifer y plant sydd â Chynlluniau Cefnogi Cydlynus (CSP) yn parhau i ostwng. Mae'n dal yn anodd cael mynediad at gefnogaeth gofal cymdeithasol ar gyfer plant anabl, gan gynnwys gofal seibiant.[120]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y gefnogaeth i blant anabl a'u hanghenion, yn arbennig yn y sectorau addysg a iechyd a'r gwasanaethau plant.**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch yr Adolygiad SEND yn Lloegr, gan gynnwys amserlen ar gyfer cyhoeddi.**

- **Sut mae llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol a dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir' ehangach?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch cyflwyno fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig newydd i gefnogi plant ag anghenion arbennig ac anableddau yng Ngogledd Iwerddon.**

---

[115] Mae'r rhain yn cynnwys addysg o safon isel, cynlluniau gofal iechyd, niferoedd uchel o blant SEND yn cael eu gwahardd neu'n absennol o'r ysgol, canlyniadau arholiadau gwael i blant SEND, a diffyg hyder yn y system gan rieni.
[116] NAO, 2019, *Support for Pupils with Special Educational Needs and Disabilities in England* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/Support-for-pupils-with-special-education-needs.pdf
[117] NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting*.
[118] NICCY, 2020, *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*
[119] Galwadau am gyngor a gwybodaeth gan ddarparwyr cyngor eraill, gan gynnwys Enquire.
[120] Scottish Government, 2019, *Additional Support for Learning Review* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/groups/additional-support-for-learning-review/

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am yr Adolygiad Cefnogaeth Ychwanegol ar gyfer Dysgu a'r defnydd o CSPs yn yr Alban.**

## 16. Methiant i wireddu'r safon iechyd uchaf sy'n gyraeddadwy

***Erthyglau 2, 3, 6, 12, 24, 27***

### *Cyfraddau marwoldeb plant*

Mae cyfraddau marwoldeb babanod wedi gostwng yng **Ngogledd Iwerddon, yr Alban** a **Chymru,** ac maent yn parhau heb newid yn **Lloegr**. Mae gan y **Deyrnas Unedig** gyfradd o 3.9 o farwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw. Mae'r cynnydd yn araf o gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd yr UE.[121] Ceir y cyfraddau marwoldeb babanod uchaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Deyrnas Unedig[122] a'r rhai isaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.[123]

Mae cyfraddau marwoldeb plant wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y **Deyrnas Unedig**; ond mae'r gostyngiad hwn wedi arafu, ac wedi cynyddu yn **yr Alban**. **Gogledd Iwerddon** sydd â'r gyfradd uchaf o farwoldeb plant o hyd.[124] Cyfunir data **Lloegr** a **Chymru**. Mae'r gyfradd marwoldeb plant 70% yn uwch ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig yng **Nghymru**.[125]

Mae cyfraddau marwoldeb y glasoed yn dal yn uchel ar draws **pob awdurdodaeth**, gyda chynnydd sylweddol yn **yr Alban** ers 2017, o 19.5 i 24.6 fesul 100,000 o bobl ifanc 10-19 oed.[126]

Yn 2018, barnwyd bod modd osgoi 35% o'r holl farwolaethau 0-19 oed yn y **Deyrnas Unedig**.[127] **Gogledd Iwerddon** sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau plant y gellid eu hosgoi, ac yno ac yn **yr Alban** ceir cyfraddau sylweddol uwch nag yn **Lloegr** a **Chymru**.[128] Nid yw **Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** wedi cychwyn ar y broses o adolygu marwolaethau plant sy'n ofynnol o dan Adran 3(5) o Ddeddf Byrddau Diogelu (Gogledd Iwerddon) 2011.[129]

---

[121] Mewn cymhariaeth, mae gan wledyd megis Estonia, Sweden, Sbaen ac Iwerddon gyfradd o lai na 3 marwolaeth ymhlith plant o dan flwydd oed fesul 1,000 o enedigaethau byw. Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD), 2019, *Health at a Glance* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://data.oecd.org/healthstat/infant-mortality-rates.htm

[122] Er enghraifft, 5.2 marwolaeth yn **Lloegr** a 4.6 yn **yr Alban** fesul 1,000 o enedigaethau byw

[123] Er enghraifft, 2.7 marwolaeth yn **Lloegr** a 3 yn **yr Alban** fesul 1,000 o enedigaethau byw. ONS, 2019, *Child and Infant Mortality in England and Wales: 2017*. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/childhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2017 and NHS Health Scotland, 2018, *Child Poverty in Scotland: Health Impact and Health Inequalities.* Ar gael o: http://www.healthscotland.scot/media/2186/child-poverty-impact-inequalities-2018.pdf [gwelwyd y ddau ar 08.12.20].

[124] Royal College of Paediatrics and Child Health (RCPCH), 2020, *State of Child Health: Child Mortality* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://stateofchildhealth.rcpch.ac.uk/evidence/mortality/child-mortality/

[125] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015, *Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant: Adroddiad Blynyddol* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/child-death-review/child-death-review-publications/child-death-review-programme-annual-report-july-2015/

[126] RCPCH, 2020, *State of Child Health: Adolescent Mortality* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://stateofchildhealth.rcpch.ac.uk/evidence/mortality/adolescent-mortality/

[127] Mae hynny'n cyfateb i 1,720 o farwolaethau allan o 4,883. ONS, 2020, *Avoidable Mortality in the UK: 2018* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/avoidablemortalityinenglandandwales/2018#avoidable-mortality-in-children-and-young-people

[128] Ibid.

[129] *Safeguarding Board Act (Northern Ireland) 2011* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/nia/2011/7/contents

### *Amserau aros*

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r amserau aros yn llawer hwy nag yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig.[130] Ar 31 Mawrth 2020, roedd 15,540 o blant ar restrau aros pediatrig, gyda 3,394 yn aros am fwy na blwyddyn.[131] Nid yw ystadegau swyddogol bob amser yn cael eu dadgyfuno i'r lefel sy'n ofynnol i ddeall amserau aros i blant. Fodd bynnag, mae'r ffigurau sydd ar gael yn dangos tuedd ddidrugaredd ar i fyny.[132]

Yng **Nghymru,** cyrhaeddodd yr amserau aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar gyfer pediatreg oedd o fewn y targed o 28 wythnos, 95% rhwng Rhagfyr 2019 a Chwefror 2020. Ym mis Medi 2020 roeddent yn 76.5%.[133]

### *Gwasanaethau gofal iechyd*

Mae pryderon ar draws y **Deyrnas Unedig** bod cyfraddau imiwneiddio wedi gostwng yn ystod y pandemig. Ymddengys bod y cyfraddau yng **Nghymru** yn sefydlog.[134]

Yn **Lloegr,** mae Cynllun Tymor Hir y GIG yn cynnwys mentrau i'w croesawu ar iechyd meddwl plant a gofal mamolaeth.[135] Fodd bynnag, mae diffyg ffocws ar iechyd corfforol, gan gynnwys plant â chyflyrau hir dymor, gordewdra, ac anghydraddoldebau iechyd, ymhlith eraill. Mae angen agwedd gyffredinol gryfach at iechyd a llesiant plant, yn cychwyn yn y blynyddoedd cynnar; mae ad-drefnu *Public Health England* yn gyfle da i wneud hynny.

Mae'n rhaid i bob plentyn fwynhau mynediad cyfartal i eiriolaeth annibynnol ynghylch eu gofal iechyd. Ymrwymodd **llywodraeth Cymru** i gynhyrchu canllawiau ar gyfer byrddau iechyd lleol ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, ond mae'r cynnydd wedi dod i ben am y tro.[136] Rhaid sicrhau sylfaen statudol i'r canllawiau hyn.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

[130] Pivotal Public Policy Forum Northern Ireland, 2020, *Priorities for Recovery: A Briefing Paper for the Northern Ireland Executive's Return from Recess* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.pivotalppf.org/cmsfiles//Pivotal_Priorities-for-Recovery-Paper.pdf, p. 12.
[131] Department of Health, 2020, *Hospital Waiting Times Statistics* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.health-ni.gov.uk/topics/dhssps-statistics-and-research/hospital-waiting-times-statistics
[132] Department of Health, 2020, *Outpatient Waiting Times* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.health-ni.gov.uk/articles/outpatient-waiting-times
[133] StatsWales, 2020, *Referral to Treatment* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Referral-to-Treatment
[134] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020, *Vaccine Uptake in Children in Wales: April to June 2020* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/($All)/1212332138CB7AB2802585EA00477764/$File/Cov20q2%20(Report%20135)_v1.pdf
[135] NHS, 2019, *The NHS Long Term Plan* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.longtermplan.nhs.uk/publication/nhs-long-term-plan/
[136] Llywodraeth Cymru, 2020, *Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 i 2020: Ymateb Llywodraeth Cymru* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/childrens-commissioner-wales-annual-report-2019-2020-welsh-government-response

- **Gofynnir i chi esbonio'r mesurau ar gyfer ymdrin â chyfraddau marwoldeb plant ar draws y Deyrnas Unedig.**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i wireddu'r safon iechyd uchaf sy'n gyraeddadwy ar gyfer plant ar draws y Deyrnas Unedig.**

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i leihau rhestrau aros a rhoi sylw i effaith oedi o'r fath ar ganlyniadau iechyd plant ac ansawdd eu bywyd?**

- **Sut bydd llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal iechyd yn gallu cael mynediad i eiriolaeth annibynnol?**

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gan Ogledd Iwerddon fecanwaith adolygu marwolaethau plant sy'n gadarn ac yn weithredol, yn unol ag Adran 3(5) o Ddeddf Byrddau Diogelu (Gogledd Iwerddon) 2011?**

### 17. Plant yn methu cael mynediad at driniaeth iechyd meddwl briodol
***Erthyglau 2, 3, 6, 12, 23, 24, 27***

Yn **Lloegr**, mae gormod o blant heb fynediad at driniaeth. Chwarter yn unig o'r plant sydd â chyflwr y gellid rhoi diagnosis ar ei gyfer sy'n cael atgyfeiriad am gymorth, mae mwy na thraean o'r atgyfeiriadau yn cael eu gwrthod, ac mae plant yn aros yn rhy hir i gael triniaeth -- 53 diwrnod ar gyfartaledd.[137] O ganlyniad, mae plant yn rhy aml yn cyrraedd sefyllfa argyfyngus lle mae angen gofal fel cleifion mewnol yn hytrach na chefnogaeth yn y gymuned.

Yn yr **Alban,** cododd nifer y plant oedd yn aros mwy nag 18 wythnos am apwyntiad cychwynnol gyda CAMHS (gwasanaethau Haen 3)[138] o 24.9% i 33.5%, a chododd y rhai oedd yn aros mwy na blwyddyn o 1.5% i 5.6% yn 2019.[139] Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau CAMHS yn gyfyngedig iawn rhwng Mawrth a Mehefin 2020, felly mae'n debygol bod yr amserau aros wedi cynyddu. Mae darpariaeth anghyson o wasanaethau iechyd meddwl ar lefel y gymuned (Haen 2)[140] gyda'r adnoddau mewn rhai ardaloedd yn canolbwyntio ar CAMHS a gwasanaethau cleifion mewnol. Mae darpariaeth annigonol yn y gymuned wedi arwain at gynnydd yn yr atgyfeiriadau CAMHS, ac yn absenoldeb gwasanaethau eraill, at atgyfeiriadau CAMHS amhriodol.

Yng **Nghymru**, bu gwelliant yn yr amserau aros rhwng atgyfeirio ac apwyntiad CAMHS cyntaf yn 2019 a dechrau 2020. Gwelir y mwyafrif o fewn pedair wythnos i'r atgyfeiriad, ond mae plant yn dal i

---

[137] CCE, 2020, *The State of Children's Mental Health Services* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/01/cco-the-state-of-childrens-mental-health-services.pdf
[138] Mae Haen 3 ar gyfer plant ag anhwylderau iechyd meddwl difrifol, cymhleth neu barhaus.
[139] Public Health Scotland, 2020, *Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS) in Scotland: Waiting Times and Inpatient Activity and CAMHS Workforce in Scotland* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.isdscotland.org/Health-Topics/Mental-Health/Child-and-Adolescent-Mental-Health/index.asp
[140] Darpariaeth gymunedol ar gyfer plant sydd â phroblemau iechyd meddwl llai difrifol fel gorbryder ac iselder.

aros yn annerbyniol o hir yn rhy aml am asesiad a thriniaeth.[141] Mae rhai plant nad oes lefel briodol o gefnogaeth iechyd meddwl ar gael iddynt yng Nghymru oherwydd darpariaeth breswyl gyfyngedig, trothwyon uchel, a meini prawf cul o ran cymhwysedd i dderbyn triniaeth. Gall plant gael eu 'cadw' ar wardiau iechyd meddwl oedolion oherwydd nad oes cefnogaeth ar gael. Dylai pob rhanbarth fabwysiadu'r dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir'.[142]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r amserau aros yn dal i godi, gan dorri'r targedau, ac maent yn annhebygol o wella heb dderbyn cyllid ychwanegol.[143] Mae gan blant brofiadau cymysg o ran argaeledd, hygyrchedd a safon y gefnogaeth iechyd meddwl.[144] Croesawir ymrwymiadau'r Weithrediaeth i roi blaenoriaeth i iechyd meddwl, gan fod diwygio'n hanfodol i sicrhau system sy'n cydymffurfio'n llawn â hawliau plant.[145]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Sut bydd y Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn derbyn adnoddau digonol fel bod plant yn cael eu cefnogi a'u hanghenion yn cael eu diwallu mewn modd amserol ac effeithiol?**

- **Sut bydd llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant sy'n profi trallod emosiynol neu salwch meddwl yn derbyn yr ymateb amlasiantaeth 'Dim Drws Anghywir' i'w hanghenion heb orfod aros am asesiad?**

- **Sut bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn sicrhau bod y Strategaeth Iechyd Meddwl gyntaf yn arwain at well canlyniadau ac yn cydymffurfio â hawliau plant?**

### 18. Gweithredu annigonol i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd plant

***Erthyglau 2, 3, 4, 6, 12, 24, 27***

Mae ansicrwydd bwyd yn dal yn broblem ddifrifol i blant **ar draws y Deyrnas Unedig**.[146] Nid oes un mesur unigol gan y llywodraeth genedlaethol i ymdrin â newyn yn y Deyrnas Unedig.[147]

---

[141] StatsWales, 2020, *Specialist Child and Adolescent Mental Health Services (sCAMHS) Management Information* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Inpatient-and-Outpatient-Waiting-Times-for-Non-RTT-Specialties
[142] CPC, 2020, *'Dim Drws Anghywir': Dod â Gwasanaethau Ynghyd i Ddiwallu Anghenion Plant.*
[143] Health and Social Care Board (HSCB), 2015, *CAMHS Reform - An Example of Integration*; HSCB, 2016-2020, *CAMHS Datasets provided to NICCY from HSCB*; HSCB, *Monthly Meeting Minutes - Performance Management Reports* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: http://www.hscboard.hscni.net/meeting/
[144] NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting*.
[145] Department of Health, 2019, *Inter-Departmental Action Plan in Response to 'Still Waiting' Report* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.health-ni.gov.uk/stillwaitingreport-response; Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach.*
[146] Food Foundation, 2019, *Children's Future Food Inquiry Report* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://foodfoundation.lcdev.co.uk/wp-content/uploads/2019/04/Childrens-Future-Food-Inquiry-report.pdf
[147] UK Parliament, 2019, *Sustainable Development Goals in the UK Follow Up: Hunger, Malnutrition and Food Insecurity in the UK: 2 - Hunger, food insecurity and malnutrition in the UK* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmenvaud/1491/149105.htm#:~:text=There%20is%20no%20single%2C%20nationwide,for%20hunger%20in%20the%20UK.&text=22%20However%20the%20British

Cyn y pandemig, amcangyfrifir bod 1.9 miliwn o blant wedi profi ansicrwydd bwyd ar draws y **Deyrnas Unedig.**[148] Derbyniodd 720,504 o blant ar draws y Deyrnas Unedig[149] fwyd o 1,200 o fanciau bwyd yn 2019.[150] Tri o'r prif achosion am hyn yw incwm isel, oedi gyda budd-daliadau, a newidiadau i fudd-daliadau.[151] Bu cynnydd o 25% yn y defnydd o fanciau bwyd i fwydo plant yn y Deyrnas Unedig rhwng 2018/19 a 2019/20.[152]

Cyhoeddodd **llywodraeth yr Alban** ym mis Ebrill 2020 na fydd y *Good Food Nation (Scotland) Bill* yn cael ei dablu cyn diwedd tymor senedd yr Alban ym mis Mai 2021.

Dylai taliadau'r wladwriaeth barhau yn ystod gwyliau'r ysgol, a dylai'r Parti Gwladol adolygu'r meini prawf cymhwysedd a digonolrwydd y gefnogaeth i deuluoedd.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu data ynghylch cwmpas ac effaith tlodi bwyd ar blant ar draws y Deyrnas Unedig, a'r mesurau a roddwyd ar waith i roi sylw i hyn, yn y cyfnod cyn y pandemig ac ers hynny. Nodwch os oes grwpiau arbennig yn wynebu risg uwch o ran tlodi bwyd.**

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant yn cael mynediad at fwyd a maeth digonol ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys pan na fyddant yn yr ysgol a'r angen cynyddol am barseli bwyd a phrydau ysgol am ddim?**

- **Pa gamau mae'r Parti Gwladol yn eu cymryd i sicrhau bod ailgyflwyno mesurau diogelu ar gyfer incwm a diogelwch bwyd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn flaenoriaeth?**

### 19. Iechyd a chyfiawnder amgylcheddol

***Erthyglau 12, 13, 15, 24, 28, 29, 31, 42***

---

%20Association,1.3%20million%20are%20over%2065. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn mesur ansicrwydd bwyd yn ei Arolwg Bwyd ac Adnoddau blynyddol, a bydd y setiau data cyntaf ar gael ym mis Mawrth 2021.

148 CCE, 2020, *Childhood Vulnerability in Numbers: Children Living in Food Poverty* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://app-t1pp-cco.azurewebsites.net/vulnerability-in-numbers/

149 Lloegr (569,810); Gogledd Iwerddon (18,934); Yr Alban (80,623); Cymru (51,137).

150 Roedd hyn yn cynrychioli rhyw ddau draean o ddarpariaeth y banciau bwyd. The Trussell Trust, 2020, *End of Year Stats* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/

151 SOSENKO, F., et al, 2019, *State of Hunger: A Study of Poverty and Food Insecurity in the UK*, The Trussell Trust [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.stateofhunger.org/wp-content/uploads/2019/11/State-of-Hunger-Report-November2019-Digital.pdf

152 Lloegr (25%); Gogledd Iwerddon (23%), Yr Alban (13%); Cymru (22.5%). The Trussell Trust, 2020, *End of Year Stats: April 2019–March 2020* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/

Mae diraddio amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd yn faterion blaenoriaeth i blant ar draws y **Deyrnas Unedig**. Maen nhw wedi ymarfer eu hawl i fod yn rhydd i ymgynnull a chyfranogi, gan ymgyrchu o blaid gweithredu ar frys.

Yng **Ngogledd Iwerddon** ni fu fawr ddim ymgysylltu â phlant ynghylch materion amgylcheddol, a bu'r cynnydd o ran gweithredu ynghylch newid yn yr hinsawdd yn araf. Mae'n rhaid i ymrwymiadau'r weithrediaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diraddio amgylcheddol[153] fod yn blentyn-ganolog a chynnwys ymgysylltu ystyrlon â phlant.

Cyflwynwyd y Ddeddf Teithio Llesol (2013) yng **Nghymru**, ond canfu Pwyllgor Seneddol yn 2018 fod teithio llesol wedi lleihau ymhlith plant oedd yn teithio i'r ysgol.[154] Dylai cynlluniau'r llywodraeth i weithredu parthau trefol 20 milltir yr awr[155] gael eu gorfodi ym mhob ardal breswyl. Mae Cynllun Aer Glân 2020 yn cydnabod bod plant yn agored i niwed yn sgîl llygredd aer yn eu blynyddoedd cynnar.[156]

Cafodd disgyblion yn **yr Alban** eu bygwth â gorfod aros ar ôl neu gosbau eraill am gymryd rhan mewn streiciau hinsawdd.[157] Trafnidiaeth yw achos amlycaf llygredd aer. Mae moduron ceir yn aml yn cael eu gadael heb eu diffodd pan gaiff plant eu gollwng neu eu casglu o'r ysgol neu'r feithrinfa, ac mae hynny'n cynyddu'n sylweddol y llygredd gwenwynig y deuant i gysylltiad ag ef.[158] Mae'n rhaid i'r cynllun sydd ar droed gan y llywodraeth i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd ganolbwyntio ar drawsffurfio trafnidiaeth, yn arbennig trafnidiaeth gyhoeddus lân, beicio, cerdded, a pharthau allyriadau isel.

Mae gan blant syniadau clir ynghylch sut mae diogelu eu hiechyd eu hunain, iechyd y blaned, a sicrhau eu hawl i amgylchedd iach. Mae'n rhaid eu cynnwys yn rhagweithiol wrth gael hyd i atebion a pholisi a newidiadau deddfwriaethol yn wyneb yr argyfwng amgylcheddol.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa asesiad a wnaed o effaith llygredd ar iechyd plant ar draws y Deyrnas Unedig?**

- **Sut mae hawliau plant wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau diraddio amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd?**

---

[153] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach*.
[154] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 2018, *Post Legislative Scrutiny of the Active Travel (Wales) Act 2013* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11566-r/cr-ld11566-r-e.pdf
[155] Tua 32 cilometr yr awr.
[156] World Health Organisation, 2018, *Air Pollution and Child Health: Prescribing Clean Air* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/275545/WHO-CED-PHE-18.01-eng.pdf?ua=1
[157] CYPCS, 2019, *Climate Change is a Human Rights Issue: Commissioner Supports Children on #ClimateStrike* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://cypcs.org.uk/news-and-stories/climate-change-is-a-human-rights-issue-commissioner-supports-children-on-climatestrike/
[158] Public Health England, 2019, *Review of Intervention to Improve Outdoor Air Quality and Public Health* [viewed 08.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/795185/Review_of_interventions_to_improve_air_quality.pdf, pp.14-15.

- **Sut mae'r Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymateb i alwadau plant am weithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd, ac yn ymgysylltu â nhw fel cyfranogwyr gweithredol?**

- **Pa gamau mae llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau teithio llesol a rhoi terfyn cyflymder 20mya ar waith mewn ardaloedd preswyl?**

## 20. Tlodi plant a diwygio lles

***Erthyglau 2, 3, 4, 6, 12, 24, 26, 27, 28, 29***

### *Tlodi plant*[159]

Yn y **Deyrnas Unedig**, roedd 4.2 miliwn o blant (30%) yn byw mewn tlodi yn 2018/19 – cynnydd o 600,000 ers 2011/12.[160] Rhagfynegwyd y byddai'r cyfraddau cyn y pandemig yn cyrraedd 5.2 miliwn erbyn 2022.[161] Mae tua chwarter o'r plant ar aelwydydd Asiaidd neu sydd mewn grŵp ethnig 'Arall' ac un o bob pum plentyn ar aelwydydd Du mewn tlodi parhaus, o gymharu ag un o bob deg aelwyd Gwyn Prydeinig.

Mae tlodi'n straen parhaus ar blant, y mae 21% ohonynt yn rhestru 'bod heb ddigon o arian' ymhlith eu tri phrif bryder, a 5% 'bod heb ddigon o fwyd na dillad.'[162] Mae llawer o gyfleoedd ar gael hefyd i blant sydd mewn tlodi: mae 37% o'r plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn gadael addysg heb gymhwyster Lefel 2,[163] o gymharu ag 18% yn gyffredinol.[164]

Mae tua 28% o'r plant yng **Nghymru** yn byw mewn tlodi.[165] Ymhlith y datblygiadau a groesawir mae cryfhau'r cyllid ar gyfer costau cysylltiedig â'r ysgol, estyn bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol a darparu gweithgareddau i blant oed ysgol, a chyllid ychwanegol ar gyfer cynllun peilot brecwast ysgol mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy. Dylid rhoi'r mentrau hyn ar waith trwy gynllun cyflawni ym maes tlodi plant.[166]

---

[159] Mae'r niferoedd ar gyfer tlodi plant ar ôl costau tai.

[160] Department for Work and Pensions, 2020, *Households Below Average Income 2018/19: The Income Distribution Summary Tables* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/households-below-average-income-199495-to-201819

[161] Social Mobility Commission, 2020, *Monitoring Social Mobility 2013-2020: Is the Government Delivering on our Recommendations?* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/891155/Monitoring_report_2013-2020_-Web_version.pdf#page=17

[162] CCE, 2020, *Stress Among Children in England During the Coronavirus Lockdown* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/09/cco-stress-among-children-in-england-during-the-coronavirus-lockdown.pdf

[163] Yn cyfateb i'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU).

[164] Social Mobility Commission, 2020, *Monitoring Social Mobility 2013-2020.*

[165] StatsWales, 2020, *Children in Relative Income Poverty by Number of Children in the Household* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-numberofchildreninthehousehold.

[166] CPC, 2019, *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/a-charter-for-change-protecting-welsh-children-from-the-impact-of-poverty-2/

Yng **Ngogledd Iwerddon**, amcangyfrifir bod 27% o blant yn 2018/19 mewn tlodi cymharol.[167] Plant o hyd yw'r grŵp oedran sydd â'r lefelau uchaf o dlodi.[168] Nod Strategaeth Tlodi Plant 2016-2019 oedd lleihau tlodi plant ac roedd yn cynnwys dangosyddion mesuradwy ac adroddiadau blynyddol.[169] Estynnwyd hyn i fis Mai 2022 tra bod y llywodraeth yn datblygu Strategaeth Gwrthdlodi newydd gynhwysfawr.[170]

Yn **yr Alban**, amcangyfrifir bod 24% o blant bob blwyddyn yn byw mewn tlodi cymharol yn 2016-19.[171]

### *Diwygio Lles*

Mae polisïau cyni a diwygio lles ar draws y **Deyrnas Unedig** yn parhau i effeithio ar y rhai sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau'r llywodraeth, yn arbennig plant. Nid yw llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gronnol y diwygiadau nawdd cymdeithasol a chredyd treth a gyflwynwyd, ac mae wedi cyflwyno sawl newid sy'n cael effaith niweidiol ar blant a'u teuluoedd.

Mae **llywodraeth y Deyrnas Unedig** yn cyfyngu ar y gefnogaeth i deuluoedd sydd â mwy na dau blentyn sy'n derbyn Credyd Treth Plant[172] a chyfanswm y gefnogaeth a dderbynnir trwy'r Cap Budd-daliadau.[173] Mae eithriadau'n bodoli i'r terfyn o ddau blentyn, gan gynnwys lle gall y fam ddangos bod y plentyn wedi'i genhedlu oherwydd cyfathrach heb gydsyniad.[174] Ers ei gyflwyno yn 2013, mae'r Cap Budd-daliadau wedi gostwng o £26,000[175] i £20,000[176] y flwyddyn.

Mae newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol yng **Ngogledd Iwerddon** wedi parhau ers 2016, ac mae hynny wedi effeithio ar deuluoedd â phlant yn fwy na neb. Yn 2015, sefydlodd y Weithrediaeth becyn lliniaru, gan sicrhau bod y rhai yn yr angen mwyaf, yn arbennig teuluoedd â phlant, yn cael eu hamddiffyn rhag rhai o'r mesurau llymaf wrth ddiwygio lles. Fodd bynnag, mae'r newidiadau dilynol i'r system nawdd cymdeithasol yn cynnwys y terfyn dau blentyn a dileu elfen teulu credydau treth neu Gredyd Cynhwysol (CC). Mae'r pandemig wedi achosi oedi gyda'r pecyn newydd o fesurau lliniaru, a

---

[167] Department for Communities, Northern Ireland Statistics and Research Agency (NISRA), 2020, *Households Below Average Income: Northern Ireland 2018-19 Poverty* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.communities-ni.gov.uk/system/files/publications/communities/hbai-2018-19.pdf

[168] Cyfraddau tlodi cymharol oedolion oedran gwaith oedd 19%, ac roedd cyfradd o 15% i bensiynwyr.

169 Department for Communities, 2016, *The Child Poverty Strategy* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.communities-ni.gov.uk/publications/child-poverty-strategy#:~:text=The%20Executive's%20Child%20Poverty%20Strategy,their%20lives%20and%20life%20chances)

[170] Northern Ireland Office, 2020, *New Decade, New Approach.*

[171] Scottish Government, 2020, *Poverty & Income Inequality in Scotland: 2016-19* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/statistics/2020/03/poverty-income-inequality-scotland-2016-19/documents/poverty-income-inequality-scotland-2016-19/poverty-income-inequality-scotland-2016-19/govscot%3Adocument/poverty-income-inequality-scotland-2016-19.pdf?forceDownload=true

[172] UK government, 2020, *Child Tax Credit* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/child-tax-credit

[173] Y 'cap budd-dal' yw cap ar uchafswm y budd-dal lles y mae modd ei dalu i aelwyd, beth bynnag yw ei faint, sy'n cael effaith anghymesur ar deuluoedd â phlant, yn arbennig rhai sydd â mwy o blant.

[174] Equalities and Human Rights Commission, 2017, *Letter to Minister of State for Employment – Damian Hinds MP: Child Tax Credit (Amendment) Regulations 2017* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/letter-to-damian-hinds-child-tax-credits-rape-clause-21-april-2017.pdf

[175] Tua 34, 255 USD (Tachwedd 2020).

[176] Tua 26, 350 USD (Tachwedd 2020). Mae'n £23,000 (tua 30,300 USD) yn Llundain.

gynlluniwyd ar gyfer mis Ebrill 2020. Mae'n rhaid i hyn roi sylw i'r newidiadau sydd wedi cael yr effaith negyddol fwyaf ar deuluoedd â phlant.

Dylai'r **Deyrnas Unedig** gadw'r newidiadau cadarnhaol sy'n deillio o'r ymatebion i Covid-19,[177] ac ehangu'r broses o ddiwygio lles, gan wella Credyd Cynhwysol, a gweithredu holl argymhellion Rapporteur Arbennig y CU ynghylch Tlodi Eithafol a Hawliau Dynol.[178]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa asesiad a gynhaliwyd o effaith gronnol yr ystod lawn o ddiwygiadau nawdd cymdeithasol a threth hyd yma ar blant a'u teuluoedd?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau i wrthdroi diwygiadau lles sy'n cael effaith negyddol ar blant a'u teuluoedd, gan gynnwys y Cap Teulu a'r Cap Budd-dal; lliniaru tlodi plant, gan gynnwys trwy fesurau fel prydau ysgol am ddim; a gweithredu argymhellion Rapporteur Arbennig y CU ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol.**

- **Gofynnir i chi esbonio sut bydd grwpiau o blant y mae tlodi'n effeithio'n anghymesur arnynt yn cael blaenoriaeth yn null y llywodraeth o fynd ati i leihau tlodi.**

- **Pa ystyriaeth a roddwyd i'r gwersi a ddysgwyd o'r mesurau a gyflwynwyd i godi pobl allan o dlodi mewn ymateb i'r pandemig ac i gymhwyso'r rhain yn ehangach?**

### 21. Tai digonol

***Erthyglau 2, 3, 4, 6, 24, 27***

Yng **Nghymru,** mae diffyg data ar gael ynghylch digartrefedd ieuenctid. Ym mis Mawrth 2020, roedd tua 69% o'r rhai mewn tai dros dro yn aelwydydd â phlant, gan gynnwys mewn hosteli a llety gwely a brecwast.[179] Mae mynediad at gefnogaeth tai yn gofyn bod yr Awdurdod Tai Lleol yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn un sydd ag 'angen blaenoriaeth', ac os felly, a ydyn nhw'n 'fwriadol ddigartref'. Mae canfod bod eu sefyllfa'n fwriadol yn golygu goblygiadau o ran mynediad at dai cymdeithasol a chefnogaeth barhaus. Mae hynny'n effeithio ar blant ac yn eu cosbi heb gydnabod eu hanghenion.[180]

Mae rhai grwpiau o blant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai anaddas ac o fod yn ddigartref, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dylai'r Parti Gwladol sicrhau na ddylai unrhyw berson ifanc

[177] Gweler yr Atodiad ar bandemig Covid-19.
[178] United Nations Special Rapporteur on Extreme Poverty and Human Rights, 2018, *Visit to the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://undocs.org/A/HRC/41/39/Add.1
[179] Llywodraeth Cymru, 2020, *Households Accommodated Temporarily by Accommodation Household Type (post 2015-16)* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Temporary-Accommodation/householdsaccommodatedtemporarily-by-accommodationtype-householdtype
[180] Tai Pawb, Chartered Institute of Housing Cymru and Shelter Cymru, 2019, *The Right to Adequate Housing in Wales: Feasibility Report* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2019/06/RightToHousing-Full-ENG.pdf

16 neu 17 oed yn y **Deyrnas Unedig** fod mewn llety dros dro heb gefnogaeth, a bod adolygiadau amlasiantaeth yn cael eu cynnal pryd bynnag bydd person ifanc â phrofiad o ofal yn cyflwyno'i hun i awdurdod lleol fel rhywun digartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae argyfwng digartrefedd teuluoedd yn bodoli yn **Lloegr**, sy'n cael ei yrru gan ddiwygio lles a phrinder tai cymdeithasol. Nid yw pob teulu'n gymwys i dderbyn llety o dan y Ddeddf Tai, ac yn hytrach maen nhw'n cael eu cartrefu gan y gwasanaethau plant o dan y Ddeddf Plant,[181] sy'n pennu lefel is o safonau amddiffyn. Roedd rhyw 127,000 o blant mewn llety dros dro cyn y pandemig, a rhyw 90,000 o deuluoedd yn "sofa syrffio" ac yn debygol o fod mewn llety wedi gorlenwi.[182] Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd sy'n lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig yng nghyswllt gorlenwi. Mae ieuenctid LHDTQ+ yn fwy tebygol o fod yn ddigartref, yn rhannol oherwydd cael eu gwrthod gan eu teulu, camdriniaeth, a thrais.[183]

Yn **yr Alban**, mae'r rhestrau aros ar gyfer tai cyhoeddus a chymdeithasol yn dal yn uchel.[184] Mae prinder tai teulu hygyrch ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, ac mae llawer o deuluoedd mewn tenantiaethau ansicr neu dai amhriodol.[185] Mae angen i'r tai cymdeithasol newydd sy'n cael eu hadeiladu ddyblu o leiaf i ymateb i'r galw.[186] Mae plant sy'n byw mewn llety a osodwyd yn breifat yn fwy tebygol o brofi tlodi a dioddef effaith y Cap Budd-dal, gan fod y rhenti yn y sector hwn yn sylweddol uwch.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, rhwng Ionawr a Mehefin 2020, cafodd 2,899 o blant eu cynnwys yn y 1664 o deuluoedd a gyflwynodd fel rhai statudol ddigartref.[187]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Beth yw cynlluniau llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i wella hygyrchedd a fforddiadwyedd tai?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau i amddiffyn, cefnogi a chael hyd i lety addas ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n arbennig o agored i niwed yn sgîl bod yn ddigartref neu fyw mewn llety anaddas.**

---

[181] *Children Act 1989* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents, Section 17.
[182] CCE, 2020, *Written Evidence Submitted by the Children's Commissioner for England* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/3772/pdf/
[183] The Albert Kennedy Trust, 2015, *LGBT Youth Homelessness: A UK National Scoping of Cause, Prevalence, Response and Outcome* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.theproudtrust.org/resources/research-and-guidance-by-other-organisations/lgbt-youth-homelessness-a-uk-national-scoping-of-cause-prevalence-response-and-outcome/
[184] Scottish Government, 2018, *Housing Statistics 2018: Key Trends Summary* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/publications/housing-statistics-scotland-2018-key-trends-summary/pages/13/
[185] EHRC, 2018, *Housing and Disabled People: Scotland's Hidden Crisis* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-scotland-hidden-crisis-long-summary.pdf
[186] Joseph Rowntree Foundation, 2020, *Poverty in Scotland 2020* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.jrf.org.uk/report/poverty-scotland-2020
[187] Department for Communities, NISRA, and the Northern Ireland Housing Executive, 2020, *Northern Ireland Homelessness Bulletin: January – June 2020* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.communities-ni.gov.uk/system/files/publications/communities/ni-homelessness-bulletin-jan-jun-2020.pdf

## ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

### 22. Mynediad anghyfartal i addysg

***Erthyglau 2, 3, 12, 28, 29, 42***

***Mynediad anghyfartal***

Mae anghydraddoldebau'n parhau yng **Ngogledd Iwerddon** gan fod llawer o blant, gan gynnwys plant â phrofiad o ofal, plant anabl, plant Teithwyr, rhai o leiafrifoedd ethnig, o gefndir difreintiedig, ac ag anghenion ychwanegol, yn wynebu rhwystrau sylweddol o safbwynt mynediad i addysg o safon uchel.[188] Mae dethol academaidd ac ysgolion ar wahân yn parhau i waethygu anghydraddoldeb, rhoi mantais i blant o deuluoedd mwy cefnog, ac ategu rhaniadau cymdeithasol a chrefyddol.[189] Lleiafrif sy'n mynd i'r ysgolion heb eu gwahanu, neu "integredig", sy'n addysgu plant Catholigion a Phrotestaniaid ar y cyd. Mae dethol a gwahanu yn golygu bod y system yn cynnwys sectorau addysg niferus ar wahanol lefelau.

Yn **yr Alban**, mae plant anabl, yn arbennig y rhai sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistig ac anableddau eraill, yn methu cael mynediad i addysg ar sail gyfartal. Mae niferoedd sylweddol o blant awtistig yn absennol am resymau heblaw salwch plentyndod cyffredin, gan gynnwys diffyg cefnogaeth, gobryder, neu gyflyrau iechyd meddwl eraill.[190] Mae plant sy'n methu mynd i'r ysgol oherwydd afiechyd yn sôn am lefelau anghyson o ddarpariaeth addysg. Hefyd mae mynediad anghyfartal i addysg mewn ysbytai. Tua thraean o'r plant sydd yn yr ysbyty sy'n derbyn addysg yn unol â chanllawiau'r llywodraeth; weithiau mae plant ar yr un ward yn derbyn darpariaeth wahanol ar sail ble maen nhw'n byw.[191]

Yn **Lloegr,** mae bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion mwyaf breintiedig a difreintiedig. Yn 2019, roedd 26.5% o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4[192] mewn ysgolion a ariannir gan y wladwriaeth yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig. Yn 2018/19 roedd disgyblion difreintiedig 18 mis y tu ôl i'w cyfoedion wrth sefyll TGAU.[193] Mae deilliannau addysgol y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau plant hefyd yn wael. Cofnodwyd bod angen gweithiwr cymdeithasol ar 1.6 miliwn o

---

[188] NICCY, 2017, *Educational Inequalities and Inclusion Position Paper* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: http://www.niccy.org/publications/2017/august/02/educational-inequalities-position-paper/; NICCY, 2020, *Education Briefing* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/publications/2020/june/10/education-committee-briefing/

[189] Department of Education, 2020, *Northern Ireland Statistical Bulletin: Enrolments at Schools and in Funded Pre-School Education in Northern Ireland 2019/20* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.education-ni.gov.uk/publications/school-enrolments-201920-statistical-bulletins

[190] Children in Scotland, National Autistic Society, and Scottish Autism, 2018, *Not Included, Not Engaged Not Involved: A Report on the Experiences of Autistic Children Missing School* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: www.notengaged.com

[191] Children's Health Scotland, 2019, *Children in Hospital 2018/2019 Survey* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://mk0childrensheafm4fc.kinstacdn.com/wp-content/uploads/2019/10/191016-Children-in-Hospital-Survey-2018-19-FINAL.pdf

[192] Yn ystod Cyfnod Allweddol 4 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio tuag at gymwysterau cenedlaethol – TGAU fel arfer. *The National Curriculum* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/national-curriculum/key-stage-3-and-4

[193] CCE, 2020, *Tackling the Disadvantage Gap During the Covid-19 Crisis* [gwelwyd ar 8 Rhagfyr 2020]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/tackling-the-disadvantage-gap-during-the-covid-19-crisis/

blant ers 2014, a 17% o'r plant hynny sy'n llwyddo mewn mathemateg a Saesneg ar lefel TGAU.[194] O'r grŵp hwn, mae'r rhai sydd â chynllun amddiffyn plentyn[195] 20 mis y tu ôl i'w cyfoedion.[196]

Mae mynediad at addysg yn **Gymraeg** yn broblematig ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan fod diffyg cefnogaeth ADY arbenigol yn Gymraeg.

### *Rhwystrau ariannol*

Mae cyllid annigonol yn llesteirio mynediad cyffredinol i addysg yng **Ngogledd Iwerddon**.[197] Roedd y gwariant ar addysg fesul plentyn yn sylweddol is na gweddill y Deyrnas Unedig, a chyrhaeddodd cyfran is o hyn yr ysgolion yng Ngogledd Iwerddon nag mewn awdurdodaethau eraill.[198] Mae angen mwy o gyllid i wella canlyniadau addysg, yn arbennig yn achos grwpiau agored i niwed.

Mae diffyg trafnidiaeth am ddim i rai dros 16 yn gallu golygu bod rhai yn methu cyrraedd man lle mae addysg ar gael trwy gyfrwng y **Gymraeg**, sef eu dewis iaith.

### *Iechyd Meddwl a Llesiant mewn Ysgolion*

Mae llesiant disgyblion yn destun pryder, gydag 18% yn unig o ddisgyblion y **Deyrnas Unedig** yn dweud bod ganddyn nhw 'lesiant positif.'[199] Mae pwysau academaidd, cyfryngau cymdeithasol, a bwlio yn faterion amlwg sy'n effeithio ar lesiant.[200]

Bu oedi wrth weithredu'r 'Addressing Bullying in Schools Act' (**Northern Ireland**) 2016'[201]. Croesawir datblygiad Fframwaith Iechyd Emosiynol a Llesiant. Mae angen cefnogaeth ar blant a'u teuluoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth yn y maes hwn.[202] Nid oes Gwasanaeth Cymorth Cwnsela Annibynnol ar gael i ddisgyblion ysgol gynradd ar hyn o bryd, er bod yr angen yn cynyddu, ac nid oes dull cyson o fesur llesiant ar draws yr holl ysgolion.

---

[194] Department for Education, 2019, *Review of Children in Need* [gwelwyd ar 8 Rhagfyr 2020]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/review-of-children-in-need/review-of-children-in-need
[195] Caiff cynllun amddiffyn plentyn ei lunio gan wasanaethau plant yr awdurdod lleol, yn nodi sut mae modd cadw'r plentyn yn ddiogel, sut gall sefyllfa'r teulu wella, a pha gefnogaeth bydd arnynt ei hangen.
[196] Education Policy Institute, 2020, *Education in England: Annual Report 2020* [gwelwyd ar 8 Rhagfyr 2020]. Ar gael o: https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/EPI_2020_Annual_Report_.pdf
[197] NICCY, 2017, *'A 'Free' Education?': The Cost of Education in Northern Ireland* [gwelwyd ar 8 Rhagfyr 2020]. Ar gael o: https://www.niccy.org/media/2909/niccy-costs-of-education-key-findings-report-and-recommendations-18-oct-17.pdf
[198] Ibid.
[199] OECD, 2018, *Programme for International Student Assessment* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.oecd.org/pisa/publications/pisa-2018-results.htm
[200] National Children's Bureau, 2019, *Informing the Development of an Emotional Health and Wellbeing Framework for Children and Young People in Northern Ireland* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: www.ncb.org.uk/sites/default/files/field/attachment/news/Informing%20the%20Development%20of%20an%20Emotional%20Health%20and%20Wellbeing%20Framework.._.pdf
[201] *Addressing Bullying in Schools Act (Northern Ireland) 2016* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.eani.org.uk/sites/default/files/2019-04/Addressing%20Bullying%20in%20Schools%20Act%20%28Northern%20Ireland%29%202016.pdf
[202] NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting*.

Mae **llywodraeth Cymru** wedi ymgynghori ar ganllawiau statudol ar gyfer dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, fydd yn gofyn bod ysgolion yn dangos cynlluniau ar gyfer gwella.[203] Yn **yr Alban,** mae plant Sipsiwn/Teithwyr yn sôn am fwlio ac aflonyddu.[204] Croesawir ymrwymiad y llywodraeth i ddarparu 350 o gwnselwyr mewn ysgolion uwchradd, ond mae'n annhebygol o fod yn ddigonol o ystyried y cynnydd yn yr angen.

### *Y Cwricwlwm*

Yn groes i argymhelliad y Pwyllgor[205] y dylai addysg iechyd rhyw ac atgenhedlu ystyrlon fod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol gorfodol ar gyfer pob ysgol yng **Ngogledd Iwerddon,** mae'r Adran Addysg yn gofyn bod ysgolion sy'n derbyn cymorth grant[206] yn datblygu eu polisi eu hunain ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Mae hyn yn groes i Adran 9 o'r *Northern Ireland (Executive Formation etc) Act 2019*, sy'n gofyn bod argymhellion CEDAW yn cael eu gweithredu[207] ac, yn sgîl hynny, bod cwricwlwm RSE gorfodol yn cael ei gyflwyno.

Dylai ysgolion bob amser roi blaenoriaeth i addysg pan fo'r plant yn bresennol, ond gan fod yn barod i sicrhau cyfranogiad digidol plant mewn addysg pan fo angen. Dylid darparu cyfarpar, neu'r gallu i gael mynediad at gyfarpar a chysylltiad â'r rhyngrwyd, i bob plentyn, er mwyn iddyn nhw fedru cyfranogi'n llawn mewn dysgu digidol.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i flaenoriaethu a buddsoddi mewn hyrwyddo a monitro iechyd meddwl a llesiant plant mewn ysgolion ar bob lefel.**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i weithredu system addysg sengl yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys rhoi sylw i anghydraddoldeb sylfaenol sy'n deillio o ddethol a gwahanu academaidd, *inter alia*, a fydd yn arwain at well canlyniadau i bob plentyn.**

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i'r dechnoleg angenrheidiol i fedru cyfranogi'n llawn mewn amgylchedd dysgu digidol neu gyfunedig?**

---

[203] Llywodraeth Cymru, 2020, *Draft Framework Guidance on Embedding a Whole-School Approach* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-07/draft-framework-guidance-on-embedding-a-whole-school-approach.pdf

[204] Scottish Government, 2020, *Educational Outcomes for Gypsy/Traveller Children* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.scot/policies/gypsy-travellers/educational-outcomes-for-gypsytraveller-children/

[205] CRC/C/GBR/CO/5, 64.

[206] Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn derbyn cymorth grant (yn cael eu hariannu gan y wladwriaeth). Mae'r ysgolion hyn yn dilyn y cwricwlwm diwygiedig.

[207] Committee on the Elimination of Discrimination against Women, 2018, *Report of the Inquiry concerning the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland under article 8 of the Optional Protocol to the Convention on the Elimination of All Forms of Discrimination against Women*, CEDAW/C/OP.8/GBR/1 [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://tbinternet.ohchr.org/Treaties/CEDAW/Shared%20Documents/GBR/INT_CEDAW_ITB_GBR_8637_E.pdf

- **Pa gynlluniau sydd yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis SEND ac anghenion iechyd meddwl, oddi mewn i ysgolion?**

### 23. Atal dros dro, gwahardd, a thynnu oddi ar y gofrestr

***Erthyglau 2, 3, 12, 28, 29***

Mae patrwm sy'n destun pryder o dynnu plant oddi ar gofrestrau ysgol yn anghyfreithlon ("off-rolling") yn parhau,[208] a hefyd waharddiadau ffurfiol neu anffurfiol, nad ydynt yn cael eu cofnodi, **ar draws y Deyrnas Unedig**.[209] Mae diffyg data oherwydd y methiant i gofnodi neu gadw cofnod llawn o'r ataliadau dros dro, y gwaharddiadau, neu'r absenoldebau "anffurfiol" hyn. Mae plant anabl yn arbennig o agored i gael eu "tynnu oddi ar y gofrestr", eu hatal dros dro a'u gwahardd. Mae ysgolion yn defnyddio mesurau o'r fath oherwydd diffyg sgiliau a gwasanaethau cefnogi i reoli ymddygiad, neu ddiffyg capasiti i ymateb i anghenion addysg, ymddygiad neu iechyd y plant hyn.[210] Mae disgyblion ag AAA bron dwywaith mor debygol o gael eu hatal dros dro â'u cyfoedion, ac mae bron hanner y disgyblion a gafodd eu diarddel ers 2015/16 **yng Ngogledd Iwerddon** wedi bod yn blant ag AAA.[211] Yn **Lloegr**, mae hanner yr holl waharddiadau parhaol yn blant ag AAA, er eu bod yn cynrychioli 15% o'r holl ddisgyblion.[212] Mae cyfradd uwch o blant a gefnogir gan ofal cymdeithasol yn cael eu gwahardd, fel y mae plant Gwyddelig, Du, Caribïaidd, a Sipsiwn Roma.[213] Mae'n debygol bod y cynnydd mewn gwaharddiadau parhaol a "thynnu oddi ar y gofrestr" yn cael eu hachosi gan fesurau atebolrwydd lluosog nad ydynt yn pwysleisio cynhwysiant, cyllidebau ysgol dan straen yn arwain at doriadau pellach i gefnogaeth, a pholisïau ymddygiad llym gyda lefel sero o oddefiad.[214]

## Cwestiwn ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i fonitro a rhoi sylw i blant sy'n syrthio oddi ar gofrestr yr ysgol trwy waharddiadau, "tynnu oddi ar y gofrestr" neu absenoldeb, yn arbennig plant anabl.**

### 24. Addysg am hawliau dynol a CCUHP

***Erthyglau 12, 28, 29, 42***

Yn **Lloegr** a'r **Alban**, nid yw addysg hawliau dynol a hawliau plant yn orfodol mewn ysgolion.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, er bod CCUHP a hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu yng nghwricwlwm

---

[208] Yr arfer o dynnu myfyriwr oddi ar gofrestr yr ysgol heb ddefnyddio gwaharddiad parhaol.
[209] NICCY, 2020, *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*
[210] Ibid.
[211] Ibid.
[212] Department of Education, 2020, *Permanent and fixed-period exclusions in England: Academic Year 2018/2019* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/permanent-and-fixed-period-exclusions-in-england#sectionBlocks-dataBlock-dda34aec-0e51-4bc5-5a3e-08d8331bca8a-tables
[213] Edward Timpson, 2019, *Timpson Review of School Exclusion* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/807862/Timpson_review.pdf
[214] CCE, 2019, *Exclusions: Children Excluded from Mainstream Schools* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/05/Exclusions-cover-merged.pdf

yr ysgol ar hyd Cyfnodau Allweddol 1-4, nid yw'r rhain yn orfodol.

Mae cwricwlwm newydd **Cymru**, sydd i'w weithredu o 2022, yn cyfeirio at CCUHP a dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn y cynnwys, ond nid oes dyletswydd i ystyried hawliau plant yn y ddeddfwriaeth. Mae hynny'n golygu nad oes gofyn bod lleoliadau ysgol unigol yn ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau am eu haddysg a dadgymhwyso elfennau o'r cwricwlwm i rai.

Dylai addysg hawliau dynol a hawliau plant fod yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ar draws pob cyfnod addysg, a dylai CCUHP gael ei wreiddio'n llawn yn y cwricwlwm.

## Cwestiwn ar gyfer y Parti Gwladol

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cydnabod CCUHP ac yn ei wreiddio ym mhrofiadau plant o'r cwricwlwm, ac yn sicrhau bod plant yn dysgu am eu hawliau yn yr ysgol?**

### 25. Mynediad cyfyngedig at hamdden a chwarae mewn ardaloedd difreintiedig
***Erthyglau 2, 3, 6, 24, 31***

Yn **Lloegr,** mae mynediad at orffwys, hamdden a chwarae yn aml yn anghyfartal oherwydd costau neu bellter, safon a/neu lefel wael o gynhaliaeth mewn parciau lleol, diffyg cyfarpar oed-briodol, a diffyg diogelwch canfyddedig.[215]

Yng **Nghymru,** rhwystrau cyffredin yw arian, diffyg amrywiaeth, ac anghenion trafnidiaeth.[216] Mae'n rhaid i'r llywodraeth sicrhau bod gan gymunedau difreintiedig adnoddau digonol i gael mynediad at ymarfer corff a bwyd iach er mwyn gweithredu'r Strategaeth Pwysau Iach, ac ymgysylltu â phlant mewn prosesau cynllunio.[217]

Yn **yr Alban**, mae mynediad at gyfleoedd hamdden a chwarae yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â threfi bach, a rhai ardaloedd dinesig, yn arbennig rhai llai cefnog.[218] Mae parciau sydd heb eu cadw mewn cyflwr da yn un rheswm pam nad yw llawer o blant yn cymryd rhan mewn chwarae heb ei strwythuro yn yr awyr agored.[219] Mae cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol o dan fygythiad oherwydd toriadau i gyllideb awdurdodau lleol.

---

[215] CCE, 2018, *Playing Out: A Children's Commissioner's Report on the Importance to Children of Play and Physical Activity* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Play-final-report.pdf
[216] CPC, 2018, *Erthygl 31: Adroddiad Sbotolau* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/publications/article-31-spotlight-report/
[217] Llywodraeth Cymru, 2019, *Strategaeth Pwysau Iach (Pwysau Iach Cymru Iach)* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/healthy-weight-strategy-healthy-weight-healthy-wales
[218] Young Scot and Scottish Land Commission, 2019, *Young People and Their Local Urban Areas* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.landcommission.gov.scot/downloads/5dd7d54fb8b87_Young-Scot-SLC-Report-Aug-2019-REDUCED.pdf
[219] Children's Parliament, 2019, *Schools on the Move: A Report for the MRC/CSO Social and Public Health Sciences Unit on the Physical and Social Barriers to Children's Engagement in Physical Activity* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.childrensparliament.org.uk/wp-content/uploads/Children_Create2019-1.pdf

Yng **Ngogledd Iwerddon** mae plant, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf ar y cyrion a phlant anabl, yn profi cyfyngiadau tebyg.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa gamau mae'r Parti Gwladol yn eu cymryd i wella cyfleoedd hamdden a chwarae ar gyfer plant BAME a phlant anabl?**

- **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant mewn ardaloedd difreintiedig yn cael mynediad cyfartal i hamdden a chwarae, gan gynnwys trwy fonitro camau gweithredu awdurdodau lleol?**

## MESURAU AMDDIFFYN ARBENNIG

### 26. Mesurau annigonol i amddiffyn a chefnogi plant mudol, ffoaduriaid, a rhai sy'n ceisio lloches

***Erthyglau 2, 3, 10, 22, 24, 26, 27, 28, 29***

Dylai **llywodraeth y Deyrnas Unedig** sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at lwybrau diogel a chyfreithlon i'r Deyrnas Unedig i wneud cais am loches, a bod modd i blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain (UASC) gael mynediad at gefnogaeth briodol pan fyddant yng ngofal yr awdurdod lleol. Nawr bod y cynllun Dubs wedi'i gwblhau a bod y newid a gynigiwyd i'r ddeddfwriaeth i ganiatáu i aduno teuluoedd barhau ar ôl Brexit wedi cael ei wrthod,[220] mae rhaid i'r llywodraeth ystyried opsiynau eraill.

Mae plant a theuluoedd sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid yn wynebu rhwystrau o ran gofal iechyd ac addysg priodol, diffyg cyfleusterau cyfweld hwylus i blant, bod yn agored i niwed wrth i'w hawliau apêl gael eu disbyddu, bod yn ddiymgeledd, a chanlyniadau negyddol polisi 'amgylchedd gelyniaethus' llywodraeth y **Deyrnas Unedig**.

Croesawir cyfranogiad **Gogledd Iwerddon** yn Rhaglen Adleoli Personau Agored i Niwed o Syria, a chreu model cydweithredol i randdeiliaid lluosog gydag elfennau arloesol o ran gwasanaethau a gweithdrefnau wedi'u symleiddio.[221] Fodd bynnag, ni ddylai mynediad at hawliau a gwasanaethau CCUHP i blant a theuluoedd sy'n destun rheolaeth fewnfudo ddibynnu ar eu llwybr mynediad. Rhaid i'r plant a'r teuluoedd hyn gael mynediad prydlon i wasanaethau'r ynys gyfan.

Croesawir mentrau i gefnogi plant a wahanwyd, gan gynnwys darpariaeth gwarcheidiaeth annibynnol.[222] Serch hynny, mae datblygu adnoddau arbenigol, megis yr uned breswyl ranbarthol, ac arbenigedd proffesiynol o dan bwysau. Mae'n rhaid i'r Weithrediaeth sicrhau bod y model darparu

---

[220] UK Parliament, 2020, *Immigration Bill Completes Passage through Parliament* [gwelwyd ar 11.12.20]. Ar gael o: https://www.parliament.uk/business/news/2020/july/lords-immigration-and-social-security-co-ordination-eu-withdrawal-bill/

[221] Department for Communities, 2020, *Syrian Vulnerable Persons Relocation Scheme: Briefing Document* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.communities-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/communities/dfc-svprs-briefing-feb20.pdf

[222] Dechrau Adran 21 o'r *Human Trafficking and Exploitation (Criminal Justice and Support for Victims) Act (Northern Ireland) 2015* yn 2018 [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/nia/2015/2/enacted

gwasanaeth yn gadarn ac yn ymatebol pan fydd nifer cynyddol yn cyrraedd, a sefydlu canllawiau asesu oed sy'n cydymffurfio â hawliau plant.

Ni symudwyd ymlaen gydag argymhellion i ddiwygio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer plant a allai fod yn ddioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, a sicrhau ei fod yn rhan o brosesau a gweithdrefnau diogelu amlddisgyblaeth.

Yn **Lloegr** a'r **Alban**, effeithir ar blant sy'n ceisio lloches gan statws eu rhieni, sy'n methu troi at Gronfeydd Cyhoeddus (NRPF). Er gwaethaf dyletswyddau awdurdodau lleol i gefnogi plant, nid oes cronfeydd penodol wedi'u dyrannu i weithredu hyn.[223]

Yng **Nghymru**, mae prinder gwybodaeth ynghylch plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n geiswyr lloches. Mae'n rhaid i'r llywodraeth sicrhau dealltwriaeth well o effaith profiadau plentyndod niweidiol ar y plant hyn[224] er mwyn sicrhau'r ffocws gorau i gefnogaeth ac adnoddau. Rydym yn croesawu Darpariaeth Iechyd a Llesiant 2018 ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.[225] Dylai'r llywodraeth ystyried estyn prisiau teithio gostyngol ar drafnidiaeth gyhoeddus, sicrhau safonau gofynnol ar gyfer y gefnogaeth iechyd meddwl i UASC,[226] a mwyafu'r gefnogaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar, addysg, a chefnogaeth iechyd meddwl.[227]

Yn **Lloegr**, mae awdurdodau lleol o dan bwysau oherwydd bod niferoedd cynyddol yn cyrraedd a bod y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS) wedi dod i ben am y tro. Mae'r NTS yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cynnig lleoedd o'u gwirfodd, ond mae mwy o alw na'r lleoedd sydd ar gael ac oedi hir wrth brosesu yn gadael plant yn aros i gael eu trosglwyddo yn eu pwynt mynediad.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa gamau bydd y Parti Gwladol yn eu cymryd i sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches yn gallu cael mynediad at lwybrau diogel, cyfreithlon i'r Deyrnas Unedig, yn enwedig ar ôl Brexit?**

- **Pa gamau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn eu cymryd i sicrhau bod hawliau pob plentyn, gan gynnwys ceiswyr lloches diymgeledd, yn cael eu diogelu'n llawn, a'u bod yn cael mynediad at y gwasanaethau ac yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol, gan gynnwys trwy gasglu data systematig, wedi'i**

---

[223] *Children (Scotland) Act 1995* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/36/contents, Section 22; CYPCS, 2019, *Legal Brief: No Recourse to Public Funds - A Children's Human Rights Issue* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://cypcs.org.uk/resources/legal-brief-no-recourse-public-funds/

[224] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020, *Adverse Childhood Experiences in Child Refugee and Asylum Seeking Populations* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.wmsmp.org.uk/wp-content/uploads/ACEs-in-Child-Refugee-and-Asylum-Seekers-Report-English-final.pdf

[225] Llywodraeth Cymru, 2018, *Policy Implementation Guidance: Health and Wellbeing Provision for Refugees and Asylum Seekers* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/health-and-wellbeing-provision-for-refugees-and-asylum-seekers_0.pdf

[226] Senedd Cymru, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2019, *"I Used to be Someone" – Refugees and Asylum Seekers in Wales* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11012/cr-ld11012-e.pdf

[227] Ibid.

**ddadgyfuno?**

- **Beth mae llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella dealltwriaeth o brofiadau plant mudol, ffoaduriaid, a rhai sy'n ceisio lloches, ac i ddileu pob rhwystr posibl o ran mynediad at wasanaethau, fel bod modd targedu adnoddau yn y ffordd orau i'w cefnogi a'u bod yn cael mynediad i'w hawliau?**

- **Pryd bydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn sefydlu Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, wedi'i wreiddio mewn trefniadau amddiffyn plant, yn cryfhau'r darpariaethau presennol ar gyfer plant a wahanwyd, ac yn sefydlu canllawiau asesu oed rhanbarthol sy'n cydymffurfio â hawliau plant?**

## 27. Gorddefnyddio amddifadu o ryddid

***Erthyglau 2, 3, 6, 24, 28, 29, 37, 40***

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, mae pryderon cynyddol ynghylch plant yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon mewn cyd-destunau sefydliadol. Mae hawliau cyfreithiol y plant hyn a'r mesurau i'w diogelu wedi cael eu trafod yn gyson yn y llys.[228] Ar hyn o bryd mae'r Goruchel Lys yn ystyried[229] a yw'n gyfreithlon amddifadu plentyn o ryddid mewn cartref plant sydd heb ei gofrestru na'i reoleiddio, a elwir yn 'llety diogel.' Mae'r achos hwn yn ymwneud â lleoliadau ar draws ffiniau rhwng gwledydd lle mae'r rheoliadau a chyfraith ddomestig yn gwahaniaethu.

Mae diffyg data digonol ac wedi'i ddadgyfuno **ar draws y Deyrnas Unedig** ynghylch niferoedd y plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau gofal amgen heb eu rheoleiddio; a chartrefi gofal preswyl sydd heb y mesurau diogelu angenrheidiol o ran gweithdrefnau a hawliau dynol. Cynyddodd nifer y gorchmynion Amddifadu o Ryddid a osodwyd ar blant mewn gofal ar draws **Lloegr a Chymru** o 43 yn 2016/17 i 134 yn 2018/19.[230] Nid oes gorchmynion Amddifadu o Ryddid cyfatebol ar gael yng nghyfraith yr Alban, ac eto mae plant o **Loegr, Gogledd Iwerddon** a **Chymru** wedi cael eu lleoli yn **yr Alban** a'u hamddifadu o'u rhyddid y tu allan i'r cynllun gofal plant statudol.

Yn **Lloegr** ers 2015 mae'r llywodraeth wedi lleihau'n sylweddol niferoedd y plant sydd dan warchodaeth, ond mae 650 o blant yn dal i gael eu cadw mewn amodau gwael, ac yn profi lefelau uchel o arferion cyfyngol.[231] Mae'r defnydd o remandio yn y ddalfa, sy'n cynyddu'n gyson, yn destun pryder,

---

[228] Mae adroddiad CCE yn trafod y dadleuon yn yr Uchel Lys a'r Goruchel Lys ynghylch profion trothwy hawliau dynol a chyfreithiol yng nghyswllt amddifadu o ryddid yn gyfreithlon, capasiti'r plentyn a chydsyniad rhieni. CCE, 2020, *Who Are They? Where are They? Children Locked Up* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/11/cco-who-are-they-where-are-they-2020.pdf

[229] In the matter of T (A Child) (Appellant) UKSC (Judgment pending), Case ID: UKSC 2019/0188 [viewed 09.12.20]. Ar gael o: https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2019-0188.html.

[230] TITHERADGE N., 2020. *Rise in Care Children Being 'Deprived of Liberty.' BBC News*. London, 6 August [gwelwyd ar 09.12.20] Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/news/uk-53641136

[231] Mae lefelau ataliaeth, gwahanu a thrais yn uchel. National Association for Youth Justice, 2020, *The State of Youth Justice 2020* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://thenayj.org.uk/cmsAdmin/uploads/state-of-youth-justice-2020-final-sep20.pdf

yn arbennig yn achos plant BAME, y ceir cynrychioliaeth eithafol ohonynt.[232] Ym mis Chwefror 2020, roedd y plant ar remand yn cyfrif am 37% o'r holl blant yn y ddalfa. Gall plant dreulio hyd at naw mis yn y ddalfa heb ddedfryd. Yn 2019, ni dderbyniodd dau draean o'r plant a fu ar remand ddedfryd o garchar wedi hynny.[233]

Yn **Lloegr**, mae llawer o blant yn cael eu trin ar wardiau iechyd meddwl ymhell o'u cartref. Ar unrhyw adeg, mae dros 900 o blant mewn wardiau iechyd meddwl i gleifion mewnol, ac mae llawer ohonynt yn aros yno am gyfnodau sylweddol o amser.[234] Mae hyn yn destun pryder arbennig yn achos plant ag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Dylai fod gwasanaethau gofal cymunedol gwell i sicrhau nad yw plant yn cael eu hanfon i'r ysbyty yn ddiangen.

Yng **Ngogledd Iwerddon,** nid oes tryloywder na data cyhoeddus ynghylch amddifadu o ryddid, er gwaethaf ymrwymiadau'r llywodraeth i sicrhau bod pob achos o gadw'n gaeth ar sail iechyd meddwl yn rhesymol ac yn gymesur, ac i gyhoeddi ystadegau.[235] Cyflwynwyd deddfwriaeth iechyd meddwl a chapasiti newydd yn 2016 (*Mental Capacity Act*).[236] Mae cymhwysiad y Ddeddf hon i bobl ifanc 16 oed a throsodd yn unig yn destun pryder, gan ei fod yn amddifadu plant o dan 16 o fynediad i'w hamddiffyniadau a'i mesurau diogelu.[237]

Mae'r holl blant sy'n cael eu carcharu yn cael eu cadw yn *Woodlands Juvenile Justice Centre*. Yn 2019/20, 7% yn unig o'r plant oedd yn cael eu cadw yno oedd wedi'u dedfrydu, ac roedd y 93% arall yn cael eu cadw o dan y *Police and Criminal Evidence Act 1989* neu ar remand.[238] Mae gorgynrychiolaeth anghymesur o blant "sy'n derbyn gofal" yn y ddalfa (39%) a hefyd o blant sy'n nodi hunaniaeth Gatholig (63%).[239][240] Nid oes dealltwriaeth gadarn o achos y gwahaniaeth hwn, nac ymdrechion clir i roi sylw iddo.

---

232 Mae plant BAME yn cynrychioli 57% o'r holl blant sydd ar remand yn y ddalfa. Ministry of Justice, 2019, *Youth Justice Statistics, England and Wales, April 2018 to March 2019* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/862078/youth-justice-statistics-bulletin-march-2019.pdf
233 Ibid.
234 CCE, 2020, *Who Are They? Where are They? Children Locked Up.*
235 Department of Health, 2019, *Inter-Departmental Action Plan in Response to 'Still Waiting' Report* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.health-ni.gov.uk/stillwaitingreport-response, Objectives 4.6, 8.1; NICCY, 2018, *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting*; NICCY, 2020, *NICCY Assessment of IDG Still Waiting Action Plan* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/StillWaiting
236 *Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/nia/2016/18/contents/enacted
237 NICCY, 2020b), *Response to the Department of Health Northern Ireland on the Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016 Code of Practice* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.niccy.org/publications/2019/february/22/mental-capacity-act/
238 Department of Justice, 2020, *Northern Ireland Youth Justice Agency Annual Workload Statistics 2019-20, Statistics Bulletin* [gwelwyd ar 10.12.20]. Ar gael o: https://www.justice-ni.gov.uk/publications/northern-ireland-youth-justice-agency-annual-workload-statistics-2019-20
239 Adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2011, roedd 41% o boblogaeth Gogledd Iwerddon yn nodi hunaniaeth Gatholig. NISRA, 2012, *Statistical Bulletin, Census 2011: Key Statistics for Northern Ireland* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.nisra.gov.uk/sites/nisra.gov.uk/files/publications/2011-census-results-key-statistics-statistics-bulletin-11-december-2012.pdf
240 Department of Justice, 2020, *Northern Ireland Youth Justice Agency Annual Workload Statistics 2018/19, Statistics Bulletin*. Ar gael o: https://www.justice-ni.gov.uk/publications/northern-ireland-youth-justice-agency-annual-workload-statistics-201819. *R & S Bulletin 28/2017 - Youth Justice Agency Annual Workload Statistics 2016/17*. Ar gael o: https://www.justice-ni.gov.uk/publications/r-s-bulletin-282017-youth-justice-agency-annual-workload-statistics-201617 [gwelwyd y ddau ar 10.12.20].

Yn **yr Alban**, mae plant yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn carcharau oedolion a YOIs, lleoliadau gwarchodol yr heddlu a'r llysoedd, wardiau iechyd meddwl, a chanolfannau cadw mewnfudwyr.[241] Defnyddir arferion cyfyngol, gan gynnwys ataliaeth, chwilio anghyfreithlon a chwilio noeth, ynysu ac ataliaeth gemegol ar blant mewn lleoliadau cosbi, addysgol, gofal preswyl a sefydliadau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bobl ifanc 16 ac 17 oed mewn lleoliadau oedolion. Ar hyn o bryd mae 24 o blant yn cael eu cadw mewn YOIs, ond 8 yn unig sydd wedi cael treial a dedfryd o garchar.[242]

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn sicrhau bod plant y mae'n rhaid eu cadw'n gaeth yn cael mynediad at gefnogaeth therapiwtig, eiriolaeth cyngor cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder a mecanweithiau cwynion hwylus i blant, fel bod modd eu hailsefydlu'n briodol a'u hailintegreiddio i'w teuluoedd a'u cymunedau?**

- **Sut bydd llywodraeth yr Alban yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn o dan 18 oed yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, heb eu cofrestru, nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith yr Alban na safonau hawliau dynol rhyngwladol?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am gynlluniau i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at fodel integredig gynhenid therapiwtig o ofal diogel.**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i leihau nifer y plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, gan gynnwys rhoi sylw i'r achosion gwaelodol; i sicrhau bod dewisiadau amgen yn lle amddifadu o ryddid bob amser yn cael eu hystyried yn y lle cyntaf, ac i sicrhau bod amddifadu o ryddid yn cael ei ddefnyddio, dim ond pan fo popeth arall wedi methu, am y cyfnod byrraf posibl, a bod y defnydd ohono yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.**

- **Gofynnir i chi ddarparu data ynghylch y plant a amddifadwyd o'u rhyddid yn y systemau cyfiawnder troseddol, mewnfudo, gofal preswyl a iechyd meddwl, wedi'i ddadgyfuno yn ôl ethnigrwydd, oed, crefydd, anabledd, a rhywedd, gan gynnwys**

[241] Er bod hwn yn bŵer a neilltuwyd i'r Deyrnas Unedig.
[242] Mae hyn yn golygu bod 67% o'r plant sydd mewn lleoliad o garchar yn yr Alban ar hyn o bryd ar remand, a hynny er gwaethaf y pryderon sylweddol a amlygwyd yn 2019 HMIPS Inspection and Expert Review of Mental Health. HM Inspectorate of Prisons for Scotland, 2019, *Report on an Expert Review of the Provision of Mental Health Services, for Young People Entering and in Custody at HMP YOI Polmont* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/sites/default/files/publication_files/Report%20on%20Expert%20Review%20of%20Provision%20of%20Mental%20Health%20Services%20at%20HMP%20YOI%20Polmont%20-%20Final%20Version.pdf

**hyd y cyfnod o amddifadu a sail gyfreithiol unrhyw leoliad.**

- **Pa gamau a gymerir i gasglu data a rhannu data ar draws asiantaethau'r llywodraeth a'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol ynghylch plant a amddifadir o'u rhyddid ym mhob cyd-destun er mwyn sicrhau bod modd tracio'r plant hyn a pharchu a diogelu eu hawliau?**

- **Pa fesurau a roddir ar waith ar frys gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal a'u cryfhau, lle bo modd, trwy gychwyn Deddf Capasiti Meddyliol a'r ddarpariaeth gysylltiedig a geir yn y Côd Ymarfer?**

- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch camau i weithredu argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, y Pwyllgor yn erbyn Artaith, ac Astudiaeth Fyd-eang y CU ar Blant a Amddifadwyd o Ryddid ynghylch plant a gafodd eu hamddifadu o'u rhyddid.**

### 28. Dylid codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 14 o leiaf

***Erthyglau 6, 24, 28, 29, 37, 40***

Mae isafswm oed cyfrifoldeb troseddol (MACR) yn parhau'n isel iawn ar draws y **Deyrnas Unedig**, er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor a Sylw Cyffredinol Rhif 24.[243]

Mae'r MACR yn **Lloegr, Gogledd Iwerddon** a **Chymru** yn dal yn 10 oed. Er bod cyfiawnder ieuenctid yng **Nghymru** yn rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth a dargyfeirio, nid oes amddiffyniad ffurfiol i'r dull gweithredu hwn yn y system gyfreithiol, ac mae modd erlyn plentyn 10 oed.

Yn **yr Alban,** er bod deddfwriaeth wedi dod i rym i godi'r MACR i 12,[244] nid yw hynny wedi cychwyn eto,[245] felly mae'n dal yn 8 oed ar hyn o bryd.

Rhaid codi'r MACR i 14 oed o leiaf, a hynny ar frys ym **mhob awdurdodaeth**.

## Cwestiwn ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pryd bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 14 o leiaf?**

### 29. Cyfiawnder Ieuenctid

***Erthyglau 2, 3, 12, 37, 40***

[243] CRC/C/15/Add.3, para. 36; CRC/C/15/Add.188, para. 62; CRC/C/GBR/CO/4, para. 78; CRC/C/GBR/CO/5, para. 79; CRC/C/GC/24, para. 22.
[244] *Age of Criminal Responsibility (Scotland) Act 2019* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/7/contents/enacted.
[245] Y diwrnod pan ddaw adran benodol o'r ddeddfwriaeth, neu'r ddeddfwriaeth gyfan, yn gyfraith.

Rydym yn croesawu'r diweddaru ar ddeddfwriaeth ynghylch gwiriadau cofnod troseddol[246] yn **Lloegr** a **Chymru** ond nid yw'r cyfnodau ailsefydlu yn adlewyrchu trefniadau dedfrydu plant, ac maent yn gysylltiedig ag oed y person ar ddyddiad yr euogfarn. Gallai oedi wrth euogfarnu olygu bod plant yn cael eu trin fel oedolion yng nghyswllt datgelu cofnodion troseddol.[247]

Yn **Lloegr,** mae plant o gefndir BAME a rhai â phrofiad o ofal yn cael eu gorgynrychioli mewn sefydliadau diogel. Mae plant Du dros bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na phlant Gwyn. Plant BAME yw 49% o holl boblogaeth y ddalfa ieuenctid, er eu bod yn cynrychioli 18% o'r boblogaeth gyffredinol.[248] Mae 55% o'r plant sydd yn y ddalfa wedi bod mewn gofal.[249]

Dylai cyfiawnder ieuenctid gael ei ddatganoli i **Gymru** er mwyn ei alinio â'r gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg sy'n cefnogi plant. Mae llawer o blant sydd fel arfer yn byw yng Nghymru[250] mewn YOIs yn Lloegr. Mae angen darpariaeth fwy addas yng Nghymru ar ffurf canolfannau diogel sy'n darparu'r gefnogaeth briodol, gan gynnwys addysg ac ymyriadau therapiwtig. Mae glasbrint cyfiawnder ieuenctid Cymru[251] yn manylu ar gynlluniau ar gyfer darpariaeth bellach; mae'n rhaid symud ymlaen gyda hyn.

Yn **yr Alban**, mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys Gwrandawiadau Plant a'r system cyfiawnder troseddol i oedolion. Er gwaethaf ethos seiliedig ar les sy'n nodi y dylid asesu pob plentyn i ganfod eu hanghenion gofal ac amddiffyn yn hytrach nag yn y system cyfiawnder troseddol sy'n cosbi, nid yw tua 37%[252] o'r plant sy'n gwrthdaro â'r gyfraith yn cael atgyfeiriad i Wrandawiadau Plant; yn hytrach maent yn cael eu herlyn am droseddau honedig mewn llysoedd troseddol oedolion. Ar hyn o bryd, nid oes modd atgyfeirio pobl ifanc 16 ac 17 oed o'r newydd i Wrandawiad Plant.

Ni fu llawer o gynnydd wrth weithredu hawliau plant yn system cyfiawnder ieuenctid **Gogledd Iwerddon**. Mae'n rhaid i'r system gydymffurfio â hawliau plant a rhoi sylw i'r ddalfa fel dewis pan fetho popeth arall, ac am y cyfnod byrraf posibl, data canlyniadau ynghylch pobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaethau gan yr Awdurdod Cyfiawnder Ieuenctid, dargyfeirio, terfynau amser statudol o

---

[246] *The Rehabilitation of Offenders Act 1974 (Exceptions) Order 1975 (Amendment) (England and Wales) Order 2020* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348209648/contents a *The Police Act 1997 (Criminal Record Certificates: Relevant Matters) (Amendment) (England and Wales) Order 2020* [gwelwyd 08.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348209631/contents
[247] Standing Committee for Youth Justice, 2020, *Response to the Sentencing White Paper Reform of Childhood Criminal Records* [gwelwyd ar 08.12.20]. Ar gael o: http://scyj.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/SCYJ-FINAL-Submission-in-Response-to-Sentencing-White-Paper-Childhood-Criminal-Records-19112020.pdf
[248] Ministry of Justice and Youth Justice Board for England and Wales, 2020, *Youth Justice Annual Statistics for 2018 to 2019 for England and Wales* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2018-to-2019
[249] Youth Justice Board, 2020, *Assessing the Needs of Sentenced Children in the Youth Justice System: England and Wales* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/887644/assessing-needs-of-sentenced-children-youth-justice-system.pdf
[250] Ymgysylltiad CPC â sefydliadau cyfiawnder ieuenctid – heb ei gyhoeddi, 2020.
[251] Ministry of Justice, 2019, *Youth Justice Blueprint for Wales* [gwelwyd ar 10.12.20]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-blueprint_0.pdf
[252] Children and Young People's Centre for Justice, 2020, *Rights Respecting? Scotland's Approach to Children in Conflict with the Law* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: http://www.cycj.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Rights-Respecting-Scotlands-approach-to-children-in-conflict-with-the-law.pdf a CYPCS, 2020, *Older Children in Conflict with the Law* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://cypcs.org.uk/resources/older-children-in-conflict-with-the-law/

120 diwrnod ar gyfer prosesau achosion llysoedd ieuenctid, a chyfranogiad plant wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau.

## Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Gofynnir i chi esbonio'r camau a gymerwyd i gynnwys pob person ifanc 16 ac 17 oed yn system cyfiawnder ieuenctid y Deyrnas Unedig a'r rhai datganoledig ar gyfer plant sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith ac i atal troseddoli pob plentyn yn y systemau cyfiawnder hynny yn eu tro.**

- **Pa gamau a gymerir gan lywodraeth yr Alban i sicrhau bod newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gyfraith yr Alban er mwyn newid y diffiniad o 'blentyn' ym mhob deddfwriaeth i unrhyw berson o dan 18 oed?**

- **A fydd y Parti Gwladol yn ymrwymo i adolygiad pellgyrhaeddol o'r system cofnodion troseddol plentyndod?**

- **Sut bydd llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'r glasbrint cyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod canolfannau diogel addas yn bodoli yng Nghymru?**

## ERAILL

### 30. Effaith Brexit

***Erthyglau 2, 3, 10, 24, 28, 29, 30, 31***

Mae Deddf Cytundeb Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)[253] yn dileu Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE[254] o gyfraith y Deyrnas Unedig, ac felly'n gwanhau'r amddiffyniadau cyfreithiol i blant. Mae'n cynnwys hawliau nad oes dim yn cyfateb yn uniongyrchol iddynt yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, gan gynnwys bod lles pennaf plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob gweithredu gan sefydliad cyhoeddus neu breifat, rhyddid annibynnol i beidio â dioddef camwahaniaethu, a'r hawl i urddas ddynol.[255] Mae'n darparu mesurau atebolrwydd mwy pwerus nag sydd ar gael mewn mannau eraill yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, ac mae'r dull blaengar o'i fframio yn golygu bod modd i'r hawliau adlewyrchu newid cymdeithasol a chael eu dehongli yng ngoleuni diwylliant ac ymarfer cyfredol.[256] Yn absenoldeb ymgorffori CCUHP, y Siarter yw'r un ddogfen gyfreithiol sy'n parhau i roi cydnabyddiaeth benodol, â ffocws, ar hawliau plant.

Un risg sylweddol yw plant yn dod i gysylltiad â sylweddau gwenwynig, gan na fydd Rheoliadau REACH[257] yr UE yn berthnasol bellach ar ôl Brexit. Gall y safonau hyn gwmpasu unrhyw beth o

[253] *European Union Withdrawal Agreement Act* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/1/contents/enacted
[254] *Charter of Fundamental Rights of the European Union* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:12012P/TXT
[255] Ibid., erthyglau 1, 21, 24.
[256] Mae'r Siarter yn gosod rhwymedigaeth gyfansoddiadol ar Aelod Wladwriaethau'r UE i lynu at safonau hawliau plant wrth weithredu cyfraith yr UE, ac mae Llys Cyfiawnder yr UE yn awr yn cyfeirio at y Siarter fel mater o drefn wrth ddyfarnu ynghylch achosion sy'n ymwneud â phlant.
[257] Registration, Evaluation, Authorisation and Restriction of Chemicals

gemegion mewn deunyddiau sydd mewn cysylltiad â bwyd (e.e. pecynnu bwyd) i chwynladdwyr a phlaladdwyr. Mae pryderon ynghylch gostwng safonau diogelwch cemegol yn y Deyrnas Unedig, gan na fydd penderfyniadau REACH yn berthnasol bellach.

Mae Brexit yn achosi heriau i blant yng **Ngogledd Iwerddon.** Mae'r effaith o ran hawliau dynol, gan gynnwys y posibilrwydd o ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, yn arwyddocaol o ran hawl plant i iechyd, addysg, teulu, diogelwch, chwarae a hamdden, a chyfranogiad rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Gallai fod cyfyngiadau difrifol ar fynediad at wasanaethau iechyd, a drefnir ar sail ynys gyfan. Gallai plant sy'n croesi'r ffin i fynd i'r ysgol, i ymweld â ffrindiau neu berthnasau, neu i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol neu hamdden, weld cyfyngu ar yr hawliau hynny. Rhaid i asiantaethau llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon weithio gydag awdurdodau Gweriniaeth Iwerddon i sefydlu trefniadau sy'n darparu mynediad o'r fath, gan ddiogelu plant a theuluoedd, a gwarchod yn erbyn unrhyw ganlyniadau negyddol o ran cyfiawnder troseddol neu fewnfudo wrth deithio ar draws y ffin at ddibenion o'r fath.

Rhaid i'r holl ddogfennau cyfreithiol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol o ran hawliau dynol a hawliau plant. Rhaid i blant yng Ngogledd Iwerddon barhau i fwynhau mynediad cyfartal i bob hawl a gwasanaeth wedi i'r cyfnod pontio ddod i ben.[258]

### Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

- **Pa asesiad a wnaed ynghylch effaith trefniadau Brexit ar blant ar draws y Deyrnas Unedig, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon?**
- **Pa gamau a gymerwyd i sicrhau na fydd hawliau plant yn cael eu lleihau wrth golli Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE?**
- **Pa fesurau bydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n destun mesurau rheoli mewnfudo, yn gallu croesi'r ffin ar y tir i gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd a chyfranogi mewn gweithgareddau addysgiadol, chwaraeon neu ddiwylliannol?**

## Diweddglo

Mae'r Comisiynwyr yn dal ar gael i gynorthwyo'r Pwyllgor gydag unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach sy'n deillio o'r adroddiad hwn, ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'r Pwyllgor ar hyd y cylch adrodd hwn.

[258] 31 Rhagfyr 2020

## ATODIAD – Crynhoad o'r Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol

### *1. Ymgorfforí CCUHP mewn cyfraith ddomestig a methiant i gadarnhau'r trydydd protocol*

- Pa gamau a gymerwyd i ymgorffori CCUHP, gan fabwysiadu dull gweithredu mwyafol o ran cymhwysiad a thraddodadwyedd, yn neddfwriaeth ddomestig Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru?
- Beth yw statws Bil Hawliau Gogledd Iwerddon, ac a fydd yn ymgorffori CCUHP yn llawn?
- Beth yw statws Bil Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (Ymgorfforí)(Yr Alban) a'r fframwaith hawliau dynol ehangach yn yr Alban, a pha wahaniaeth maen nhw wedi'i wneud i weithredu hawliau?
- Pryd bydd y Deyrnas Unedig yn cadarnhau'r Trydydd Protocol Dewisol ar Weithdrefn Gyfathrebu?
- Sut bydd llywodraethau'n sicrhau bod prosesau cadarn ar gyfer gwreiddio CCUHP mewn deddfwriaeth, polisïau ac arferion newydd a diwygiedig?

### *2. Hawliau a buddiannau plant heb gael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau*

- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gyflwyno rhwymedigaeth statudol ar draws llywodraethau er mwyn cynnal CRIA yn systematig wrth ddatblygu cyfreithiau a pholisïau sy'n effeithio ar blant a CRIE i werthuso'r effeithiau? Esboniwch, os gwelwch yn dda, sut bydd barn plant yn cael ei chynnwys yn y prosesau hyn.
- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn darparu adnoddau effeithiol ac yn cyflawni hyfforddiant hawliau plant, gan hyrwyddo defnydd o offer fel CRIAs a CRIEs ar draws llywodraethau ar bob lefel, fel bod gweision sifil yn gwybod ac yn deall sut i gymhwyso dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant fel mater o drefn yn y broses o lunio polisi?
- A oes Strategaeth a Chynllun Cyflawni Plant a Phobl Ifanc a gymeradwywyd gan y Weithrediaeth i gyflawni ym maes hawliau plant, gyda ffocws ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, yng Ngogledd Iwerddon?

### *3. Dyraniad annigonol o ran adnoddau a diffyg tryloywder wrth gyllidebu*

- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn mesur yn dryloyw ac yn rheolaidd yr adnoddau a ddyrannir mewn cyllidebau ar gyfer hawliau plant ac yn asesu effaith gwariant ar gyfer plant yn unol â CCUHP?
- Faint sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer plant yn ystod pob un o'r pedair blynedd diwethaf?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau i sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu hariannu'n ddigonol, yn arbennig yng nghyswllt plant a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd bregus.

### *4. Casglu, dadgyfuno a dadansoddi data annigonol*

- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn datblygu system gynhwysfawr o gasglu a gwerthuso data hawliau plant, gan gynnwys dangosyddion hawliau plant mesuradwy, fydd yn cynhyrchu data o ansawdd uchel wedi'i ddadgyfuno?
- Sut bydd y data hwn yn cael ei rannu ar draws yr holl adrannau ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod modd tracio anghenion, nodweddion bregus a chanlyniadau plant yn briodol, er mwyn gallu cyflawni rhwymedigaethau hawliau plant?

### *5. Annibyniaeth Comisiynwyr Plant*

- Pa ystyriaeth a roddwyd i'r argymhellion sy'n deillio o adolygu deddfwriaeth NICCY?
- Pa gamau a gymerwyd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am weithrediad swyddfeydd CPC a CCE i'w Seneddau?
- Pa gamau a gymerir i wella annibyniaeth y Comisiynwyr, yn arbennig yng nghyswllt pennu cyllideb?

### 6. *Mae amddiffyniad annigonol yn golygu bod plant yn parhau i brofi camwahaniaethu*

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i ymdrin â chamwahaniaethu ar sail oed, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, anabledd, a seiliau eraill mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys addysg.
- Sut bydd llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i ddarparu addysg wrth-hiliol a llety rhesymol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion fel bod pob plentyn yn gallu mynychu ar sail gyfartal?
- Ydy Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi symud ymlaen gyda Bil Camwahaniaethu ar Sail Oedran (Nwyddau, Cyfleusterau a Gwasanaethau) sy'n darparu amddiffyniad i bob plentyn o dan 18 oed?
- Fydd y Deyrnas Unedig neu'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwahardd dyfeisiau mosgito?

### 7. *Cyfranogiad annigonol plant a phobl ifanc pan wneir penderfyniadau*

- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf?
- Pa gamau bydd y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu cymryd i roi plant a'u buddiannau yn y canol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf o beidio â chael eu clywed, a diogelu eu hawl i gyfranogi yn y gyfraith trwy ymgorffori CCUHP?
- Sut bydd y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwella'u hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy sefydlu strwythurau, mecanweithiau a chanllawiau priodol, cynhyrchu fersiynau hygyrch, hwylus i blant o ddogfennau ymgynghori, mecanweithiau cwynion hwylus i blant, a hyfforddi personél?

### 8. *Parchu hawliau preifatrwydd plant a'u hamddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol*

- Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflwyno deddfwriaeth Niwed Ar-lein i amddiffyn plant ar-lein heb oedi pellach?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gweithrediad llawn y Côd Oed-Briodol?
- Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol, gan gynnwys eu hawl i breifatrwydd, buddsoddiad mewn mesurau addysgiadol, casglu a diogelu data, mesurau amddiffyn plant, rheoleiddio gweithgareddau ar-lein, a datblygu strategaeth diogelwch ar-lein sy'n seiliedig ar hawliau plant?
- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cynnwys plant fel cyfranogwyr mewn gwaith ar amddiffyn rhag niwed yn yr amgylchedd digidol ac yn defnyddio dulliau gweithredu a arweinir gan gyfoedion?

### 9. *Gorddefnydd o ataliaeth ac ynysu ym mhob lleoliad*

- Pa gamau bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn eu cymryd i ymdrin ag ataliaeth, gan gynnwys ataliaeth sy'n achosi poen lle mae hynny'n dal yn berthnasol, ac arferion ynysu/neilltuo ym mhob lleoliad, gan sicrhau na ddefnyddir ataliaeth ond pan fydd popeth arall wedi methu?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i gyflwyno canllawiau cynhwysfawr ar gyfyngu defnydd o ynysu, eithrio, neilltuo ac arferion ataliol a chyfyngol oni bai bod plentyn yn wynebu risg niwed uniongyrchol. Mae'r wybodaeth hon yn galw am gofnodi, adrodd, monitro ac adolygu pob digwyddiad yn gyson ar lefel genedlaethol ar draws lleoliadau iechyd, cyfiawnder, gofal cymdeithasol, preswyl ac addysg, yn ogystal â hyfforddi'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant. Gofynnir i chi ddarparu'r holl ddata sydd ar gael ers 2016.
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddileu defnydd o gaethiwo unigol am unrhyw gyfnod i blant?

### 10. Angen amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad ar draws y Deyrnas Unedig

- Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith o ran gweithredu a chyfathrebu'r ddeddfwriaeth newydd yn yr Alban a Chymru?
- A fydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn ymrwymo i ddileu amddiffyniad "cosb resymol" mewn deddfwriaeth, a darparu gwybodaeth am ffyrdd cadarnhaol o fagu plant a chefnogaeth i weithredu hyn?

### 11. Cefnogaeth plentyn-ganolog ar gyfer plant y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt

- Pryd bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cyflwyno model Barnahus, neu fodel tebyg plentyn-ganolog, ar gyfer plant y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt, gan gynnwys adnoddau ariannol a dynol angenrheidiol?

### 12. Amddiffyniad annigonol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o wynebu trais difrifol, gorfodaeth ac ecsbloetio

- Gofynnir i chi roi gwybodaeth am y camau a gymerwyd i wella casglu data a chanfod plant sydd mewn perygl o gael eu gorfodi, eu hecsbloetio a dioddef trais, a chamau gweithredu effeithiol i wella'u sefyllfaoedd.
- Sut mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth mewn perthnasoedd agos?
- Pa gamau mae llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynghylch canllawiau statudol ar deithiau ysgol a sicrhau bod plant mewn ysgolion preifat yn cael yr un amddiffyniad â phlant mewn ysgolion nad ydynt yn breifat?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i sicrhau bod plant yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi dioddef effaith cam-drin domestig yn cael eu hamddiffyn yn llawn o dan gyfraith a gweithdrefnau sifil a throseddol, bod plant sy'n arddangos ymddygiad niweidiol a chamdriniol yn derbyn ymyriadau priodol ac effeithiol, a bod argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Ecsbloetio Plant yn Rhywiol wedi cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Fydd y Parti Gwladol yn codi oed recriwtio i'r Lluoedd Arfog i 18?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch data monitro a gwerthuso llawn ar gyfer rhaglenni a chamau gweithredu i atal plant rhag ymwneud â gweithgareddau parafilwrol a'u hamddiffyn rhag trais parafilwrol.

### 13. Diffyg ymyrraeth gynnar, gofal plant, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd effeithiol

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau a gynlluniwyd a'r adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau a chynhaliaeth ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, a phwyslais arnynt, gan ehangu nifer y plant a gefnogir, gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau plant?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau i sicrhau bod pob teulu yn gallu cael mynediad i ofal plant ar sail angen yn hytrach na statws cyflogaeth.
- Pryd bydd llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ariannu a darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd addas a digonol i roi sylw i'r cyfraddau annerbyniol o uchel o blant a phobl ifanc sy'n mynd i ofal yr awdurdod lleol?

### 14. Plant mewn gofal

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mewn darpariaeth breswyl arbenigol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, yn agos at eu cartref, bod yr Arolygiaeth Gofal yn archwilio pob lleoliad yn briodol, gan gynnwys 'lleoliadau heb eu rheoleiddio', a bod barn plant yn cael ei chlywed.
- Sut bydd y Parti Gwladol yn gwella llesiant plant sy'n derbyn gofal?

- Beth mae llywodraeth Cymru yn gwneud i sicrhau bod darpariaeth arbenigol yn cael ei sefydlu ar gyfer y plant hynny ag anghenion cymhleth sydd angen darpariaeth breswyl a fydd yn cefnogi eu hanghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i roi argymhellion Adolygiad Gofal Annibynnol yr Alban ar waith.
- Gofynnir i chi gadarnhau'r llinell amser ar gyfer cyflwyno'r Bil Mabwysiadu a Phlant a'r Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngogledd Iwerddon a mesurau i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i gyfleusterau arbenigol priodol ar gyfer eu hanghenion.
- Pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau y bydd yr Adolygiad Gofal sydd ar ddod yn Lloegr yn arwain at welliannau sylweddol yn y system gofal cymdeithasol i blant, gan gynnwys ymgysylltu gweithredol â phlant ar hyd y broses?

### *15. Adnoddau annigonol i gefnogi plant anabl*

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y gefnogaeth i blant anabl a'u hanghenion, yn arbennig yn y sectorau addysg a iechyd a'r gwasanaethau plant.
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch yr Adolygiad SEND yn Lloegr, gan gynnwys amserlen ar gyfer cyhoeddi.
- Sut mae llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol a dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir' ehangach?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch cyflwyno fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig newydd i gefnogi plant ag anghenion arbennig ac anableddau yng Ngogledd Iwerddon.
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am yr Adolygiad Cefnogaeth Ychwanegol ar gyfer Dysgu a'r defnydd o CSPs yn yr Alban.

### *16. Methiant i wireddu'r safon iechyd uchaf sy'n gyraeddadwy*

- Gofynnir i chi esbonio'r mesurau ar gyfer ymdrin â chyfraddau marwoldeb plant ar draws y Deyrnas Unedig.
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am fesurau i wireddu'r safon iechyd uchaf sy'n gyraeddadwy ar gyfer plant ar draws y Deyrnas Unedig.
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i leihau rhestrau aros a rhoi sylw i effaith oedi o'r fath ar ganlyniadau iechyd plant ac ansawdd eu bywyd?
- Sut bydd llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal iechyd yn gallu cael mynediad i eiriolaeth annibynnol?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gan Ogledd Iwerddon fecanwaith adolygu marwolaethau plant sy'n gadarn ac yn weithredol, yn unol ag Adran 3(5) o Ddeddf Byrddau Diogelu (Gogledd Iwerddon) 2011?

### *17. Plant yn methu cael mynediad at driniaeth iechyd meddwl briodol*

- Sut bydd y Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn derbyn adnoddau digonol fel bod plant yn cael eu cefnogi a'u hanghenion yn cael eu diwallu mewn modd amserol ac effeithiol?
- Sut bydd llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant sy'n profi trallod emosiynol neu salwch meddwl yn derbyn yr ymateb amlasiantaeth 'Dim Drws Anghywir' i'w hanghenion heb orfod aros am asesiad?
- Sut bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn sicrhau bod y Strategaeth Iechyd Meddwl gyntaf yn arwain at well canlyniadau ac yn cydymffurfio â hawliau plant?

### 18. *Gweithredu annigonol i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd plant*

- Gofynnir i chi ddarparu data ynghylch cwmpas ac effaith tlodi bwyd ar blant ar draws y Deyrnas Unedig, a'r mesurau a roddwyd ar waith i roi sylw i hyn, yn y cyfnod cyn y pandemig ac ers hynny. Nodwch os oes grwpiau arbennig yn wynebu risg uwch o ran tlodi bwyd.
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant yn cael mynediad at fwyd a maeth digonol ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys pan na fyddant yn yr ysgol a'r angen cynyddol am barseli bwyd a phrydau ysgol am ddim?
- Pa gamau mae'r Parti Gwladol yn eu cymryd i sicrhau bod ailgyflwyno mesurau diogelu ar gyfer incwm a diogelwch bwyd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn flaenoriaeth?

### 19. *Iechyd a chyfiawnder amgylcheddol*

- Pa asesiad a wnaed o effaith llygredd ar iechyd plant ar draws y Deyrnas Unedig?
- Sut mae hawliau plant wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau diraddio amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd?
- Sut mae'r Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymateb i alwadau plant am weithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd, ac yn ymgysylltu â nhw fel cyfranogwyr gweithredol?
- Pa gamau mae llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau teithio llesol a rhoi terfyn cyflymder 20mya ar waith mewn ardaloedd preswyl?

### 20. *Tlodi plant a diwygio lles*

- Pa asesiad a gynhaliwyd o effaith gronnol yr ystod lawn o ddiwygiadau nawdd cymdeithasol a threth hyd yma ar blant a'u teuluoedd?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau i wyrdroi diwygiadau lles sy'n cael effaith negyddol ar blant a'u teuluoedd, gan gynnwys y Cap Teulu a'r Cap Budd-dal; lliniaru tlodi plant, gan gynnwys trwy fesurau fel prydau ysgol am ddim; a gweithredu argymhellion Rapporteur Arbennig y CU ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol.
- Gofynnir i chi esbonio sut bydd grwpiau o blant y mae tlodi'n effeithio'n anghymesur arnynt yn cael blaenoriaeth yn null y llywodraeth o fynd ati i leihau tlodi.
- Pa ystyriaeth a roddwyd i'r gwersi a ddysgwyd o'r mesurau a gyflwynwyd i godi pobl allan o dlodi mewn ymateb i'r pandemig ac i gymhwyso'r rhain yn ehangach?

### 21. *Tai digonol*

- Beth yw cynlluniau llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i wella hygyrchedd a fforddiadwyedd tai?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau i amddiffyn, cefnogi a chael hyd i lety addas ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n arbennig o agored i niwed yn sgîl bod yn ddigartref neu fyw mewn llety anaddas

### 22. *Mynediad anghyfartal i addysg*

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i flaenoriaethu a buddsoddi mewn hyrwyddo a monitro iechyd meddwl a llesiant plant mewn ysgolion ar bob lefel.
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i weithredu system addysg sengl yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys rhoi sylw i anghydraddoldeb sylfaenol sy'n deillio o ddethol a gwahanu academaidd, *inter alia*, a fydd yn arwain at well canlyniadau i bob plentyn.
- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i'r dechnoleg angenrheidiol i fedru cyfranogi'n llawn mewn amgylchedd dysgu digidol neu gyfunedig?
- Pa gynlluniau sydd yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis SEND ac anghenion iechyd meddwl, oddi mewn i ysgolion?

### 23. Atal dros dro, gwahardd, a thynnu oddi ar y gofrestr

- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i fonitro a rhoi sylw i blant sy'n syrthio oddi ar gofrestr yr ysgol trwy waharddiadau, "tynnu oddi ar y gofrestr" neu absenoldeb, yn arbennig plant anabl.

### 24. Education on human rights and the UNCRC

- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn cydnabod CCUHP ac yn ei wreiddio ym mhrofiadau plant o'r cwricwlwm, ac yn sicrhau bod plant yn dysgu am eu hawliau yn yr ysgol?

### 25. Mynediad cyfyngedig at hamdden a chwarae mewn ardaloedd difreintiedig

- Pa gamau mae'r Parti Gwladol yn eu cymryd i wella cyfleoedd hamdden a chwarae ar gyfer plant BAME a phlant anabl?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant mewn ardaloedd difreintiedig yn cael mynediad cyfartal at hamdden a chwarae, gan gynnwys trwy fonitro camau gweithredu awdurdodau lleol?

### 26. Mesurau annigonol i amddiffyn a chefnogi plant mudol, ffoaduriaid, a rhai sy'n ceisio lloches

- Pa gamau bydd y Parti Gwladol yn eu cymryd i sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches yn gallu cael mynediad at lwybrau diogel, cyfreithlon i'r Deyrnas Unedig, yn enwedig ar ôl Brexit?
- Pa gamau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn eu cymryd i sicrhau bod hawliau pob plentyn, gan gynnwys ceiswyr lloches diymgeledd, yn cael eu diogelu'n llawn, a'u bod yn cael mynediad at y gwasanaethau ac yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol, gan gynnwys trwy gasglu data systematig, wedi'i ddadgyfuno?
- Beth mae llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella dealltwriaeth o brofiadau plant mudol, ffoaduriaid, a rhai sy'n ceisio lloches, ac i ddileu pob rhwystr posibl o ran mynediad at wasanaethau, fel bod modd targedu adnoddau yn y ffordd orau i'w cefnogi a'u bod yn cael mynediad i'w hawliau?
- Pryd bydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn sefydlu Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, wedi'i wreiddio mewn trefniadau amddiffyn plant, yn cryfhau'r darpariaethau presennol ar gyfer plant a wahanwyd, ac yn sefydlu canllawiau asesu oed rhanbarthol sy'n cydymffurfio â hawliau plant?

### 27. Gorddefnyddio amddifadu o ryddid

- Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn sicrhau bod plant y mae'n rhaid eu cadw'n gaeth yn cael mynediad at gefnogaeth therapiwtig, eiriolaeth cyngor cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder a mecanweithiau cwynion hwylus i blant, fel bod modd eu hailsefydlu'n briodol a'u hailintegreiddio i'w teuluoedd a'u cymunedau?
- Sut bydd llywodraeth yr Alban yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn o dan 18 oed yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, heb eu cofrestru, nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith yr Alban na safonau hawliau dynol rhyngwladol?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am gynlluniau i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at fodel integredig gynhenid therapiwtig o ofal diogel.
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch mesurau i leihau nifer y plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, gan gynnwys rhoi sylw i'r achosion gwaelodol; i sicrhau bod dewisiadau amgen yn lle amddifadu o ryddid bob amser yn cael eu hystyried yn y lle cyntaf, ac i sicrhau bod amddifadu o ryddid yn cael ei ddefnyddio, dim ond pan fo popeth arall wedi

methu, am y cyfnod byrraf posibl, a bod y defnydd ohono yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

- Gofynnir i chi ddarparu data ynghylch y plant a amddifadwyd o'u rhyddid yn y systemau cyfiawnder troseddol, mewnfudo, gofal preswyl a iechyd meddwl, wedi'i ddadgyfuno yn ôl ethnigrwydd, oed, crefydd, anabledd, a rhywedd, gan gynnwys hyd y cyfnod o amddifadu a sail gyfreithiol unrhyw leoliad.
- Pa gamau a gymerir i gasglu data a rhannu data ar draws asiantaethau'r llywodraeth a'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol ynghylch plant a amddifadir o'u rhyddid ym mhob cyd-destun er mwyn sicrhau bod modd tracio'r plant hyn a pharchu a diogelu eu hawliau?
- Pa fesurau a roddir ar waith ar frys gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal a'u cryfhau, lle bo modd, trwy gychwyn Deddf Capasiti Meddyliol a'r ddarpariaeth gysylltiedig a geir yn y Côd Ymarfer?
- Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch camau i weithredu argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, y Pwyllgor yn erbyn Artaith, ac Astudiaeth Fyd-eang y CU ar Blant a Amddifadwyd o Ryddid ynghylch plant a gafodd eu hamddifadu o'u rhyddid.

### *28. Dylid codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 14 o leiaf*

- Pryd bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 14 o leiaf?

### *29. Cyfiawnder ieuenctid*

- Gofynnir i chi esbonio'r camau a gymerwyd i gynnwys pob person ifanc 16 ac 17 oed yn system cyfiawnder ieuenctid y Deyrnas Unedig a'r rhai datganoledig ar gyfer plant sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith ac i atal troseddoli pob plentyn yn y systemau cyfiawnder hynny yn eu tro.
- Pa gamau a gymerir gan lywodraeth yr Alban i sicrhau bod newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gyfraith yr Alban er mwyn newid y diffiniad o 'blentyn' ym mhob deddfwriaeth i unrhyw berson o dan 18 oed?
- A fydd y Parti Gwladol yn ymrwymo i adolygiad pellgyrhaeddol o'r system cofnodion troseddol plentyndod?
- Sut bydd llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'r glasbrint cyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod canolfannau diogel addas yn bodoli yng Nghymru?

### *30. Effaith Brexit*

- Pa asesiad a wnaed ynghylch effaith trefniadau Brexit ar blant ar draws y Deyrnas Unedig, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon?
- Pa gamau a gymerwyd i sicrhau na fydd hawliau plant yn cael eu lleihau wrth golli Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE?
- Pa fesurau bydd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n destun mesurau rheoli mewnfudo, yn gallu croesi'r ffin ar y tir i gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd a chyfranogi mewn gweithgareddau addysgiadol, chwaraeon neu ddiwylliannol?